Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Hydref 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddESS**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@cynulliad.cymru**
Twitter: **@ SeneddESS**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Hydref 2019

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
[www.cynulliad.cymru/SeneddESS](www.cynulliad.cymru/SeneddESS)

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Russell George AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mohammad Asghar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Hefin David AC**
Llafur Cymru
Caerffili



**Vikki Howells AC**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Bethan Sayed AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mark Reckless AC**
Plaid Brexit
Dwyrain De Cymru



**David j Rowlands AC**
Plaid Brexit
Dwyrain De Cymru



**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .................... **5**

**Argymhellion** .................... **7**

**1. Cefndir yr ymchwiliad** .................... **10**

Cylch gorchwyl .................... 11

Casglu tystiolaeth .................... 12

**2. Cefndir y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol** .................... **13**

Y cyd-destun polisi .................... 15

Sut mae polisi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi esblygu .................... 16

**3. Trapiau sgiliau isel a phrinder sgiliau** .................... **19**

Trapiau sgiliau isel a'r tensiwn ym mholisi Llywodraeth Cymru .................... 21

Y darlun sgiliau yng Nghymru .................... 23

Y darlun sgiliau yn y dyfodol a'r angen i ddarpariaeth sgiliau ymdopi â newid .................... 25

**4. Torri trapiau sgiliau isel a chysoni cyflenwad sgiliau â'r galw** .................... **28**

Ffyrdd o gysoni'r cyflenwad o sgiliau â'r galw am sgiliau .................... 29

Enghreifftiau rhyngwladol .................... 32

Ysgogi galw am sgiliau uwch ymhlith cyflogwyr .................... 32

**5. Swyddogaeth Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn trapiau sgiliau isel a lleihau prinder sgiliau** .................... **35**

Swyddogaeth, llywodraethiant a chwmpas y partneriaethau .................... 35

Cylch gwaith y partneriaethau a sefyllfa'r sector addysg uwch .................... 39

Ymgysylltu â chyflogwyr a dadansoddi data gan y partneriaethau .................... 42

Argymhellion y partneriaethau .................... 46

**6. Argymhellion y Pwyllgor** .................... **51**

**Atodiad: Tystion** .................... **54**

# Rhagair y Cadeirydd

Er bod lefelau cyfartalog cymwysterau yn cynyddu ac enghreifftiau o newid ac arloesi proffil uchel, clywsom fod rhannau o'r economi yng Nghymru yn parhau i fod mewn "trapiau sgiliau isel" lle nad oes angen y sgiliau lefel uwch hyn ar gyflogwyr neu nad ydynt yn eu gwerthfawrogi; mae hyn yn ei dro yn gwanychu arloesi ac nid yw'n creu'r ysgogiadau y mae eu hangen ar gyflogwyr i fuddsoddi mewn gweithlu â sgiliau uchel. Yn sgil hyn ceir cylch dieflig sy'n gysylltiedig â chanlyniadau economaidd a phersonol gwael.

Er mai bwriad y Pwyllgor i ddechrau oedd archwilio pa mor dda y mae partneriaethau sgiliau rhanbarthol yn nodi ac yn adlewyrchu'r galw am sgiliau, fe wnaethom ddysgu'n gyflym bod bodolaeth trapiau sgiliau isel yn golygu bod yn rhaid gwneud gwaith i ysgogi'r galw gan gyflogwyr am sgiliau lefel uwch ar yr un pryd ag ymdopi â'r problemau o ran eu cyflenwi.

Bwriad ein hargymhellion yw rhoi cenhadaeth strategol glir i'r partneriaethau, sydd â phwyslais cryf ar nodi a chwalu trapiau sgiliau isel. Mae hyn yn golygu swyddogaeth gryfach mewn ymyriadau ar ochr y galw ac ysgogi'r galw gan gyflogwyr am sgiliau lefel uwch. Yn unol â hyn, ac i danlinellu eu swyddogaethau newydd, rydym yn argymell ailenwi'r partneriaethau yn Fyrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol.

Rydym hefyd yn argymell y dylid gwneud defnydd gwell o'r asedau y mae'r pwrs cyhoeddus eisoes yn eu hariannu i wella dadansoddi data ac ymgysylltu â chyflogwyr - sicrhau bod yr elfennau sylfaenol yn gywir. Mae'n bwysig dweud bod y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith gwych y mae staff y partneriaethau eisoes wedi'i wneud er gwaethaf heriau amlwg o ran adnoddau – mae'n bryd datblygu'r gwaith hwn bellach. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector addysg uwch i elwa ar y capasiti ymchwil enfawr yn ein prifysgolion ar gyfer y Byrddau newydd. Ar yr un pryd rydym yn argymell gwneud defnydd gwell o'r rhwydwaith darparu prentisiaethau - ased gwerthfawr iawn ar gyfer gweithio'n agosach â busnesau bach a chanolig a datblygu perthynas â nhw.

Yn olaf, rydym yn falch o weld bod adolygiad Llywodraeth Cymru o arloesi digidol, Cymru 4.0, yn rhannu ein barn y dylid diwygio'r partneriaethau a bod ganddynt swyddogaeth gryfach wrth ysgogi'r galw am sgiliau lefel uwch. Os yw dysgwyr i ffynnu yn y gweithle, ni fydd yn ddigon i'r system sgiliau yng Nghymru ymdopi â'r

newidiadau yn unig. Bydd yn rhaid iddi ragweld newid ac yn wir fynd ymhellach a helpu i lywio'r newid hwnnw.

Russell George AC
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn proses ddiwygio drylwyr o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol trwy fabwysiadu'r pecyn o gamau gweithredu a nodir isod, ac ailystyried eu hadnoddau pan fo'n ofynnol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys ail-frandio'r partneriaethau fel Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol i wneud eu swyddogaeth yn y system sgiliau ehangach yn eglur, a phwyslais newydd ar ymyriadau ar ochr y galw. Mae'r pecyn hefyd yn sefydlu rhagolwg a chylch gwaith strategol eglur ar gyfer y Byrddau, gan wella ymgysylltiad cyflogwyr a gwaith casglu a dadansoddi data. ........ Tudalen 51

Cam Gweithredu 1: Ail-frandio Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol i wneud eu swyddogaeth a'u cylch gwaith yn eglur i randdeiliaid. Yn dilyn ymlaen o hyn, dylai fod gan y Byrddau Cynghori y swyddogaeth eglur o gynghori Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ar o leiaf: (a) y galw a'r prinder/camgymhariadau sgiliau rhanbarthol yn y presennol a'r dyfodol; (b) sut i fynd i'r afael â phrinder/camgymhariadau sgiliau, (c) gwerthuso eu cyngor a'u cynlluniau eu hunain ac (ch) ar unrhyw ymateb i ergydion i'r system economi a sgiliau ranbarthol fel cyflogwr mawr yn diswyddo nifer sylweddol o staff.
........ Tudalen 51

Cam Gweithredu 2: Yn ychwanegol at yr uchod, dylai fod gan y Byrddau Cynghori y swyddogaeth o nodi, deall a chyflwyno'n eglur i randdeiliaid y sectorau, y rhanbarthau a'r lleoedd sy'n dioddef trapiau sgiliau isel. Dylent gynghori ar fynd i'r afael â'r trapiau, gan gynnwys ysgogi galw gan gyflogwyr yn y dyfodol am sgiliau lefel uwch. ........ Tudalen 51

Cam Gweithredu 3: Dylai Llywodraeth Cymru **gytuno a chyhoeddi amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adolygiad Graystone yn llawn** er mwyn sicrhau bod llywodraethiant y Byrddau Cynghori yn cael ei gryfhau, yn enwedig yr argymhelliad ar gyfer Fframwaith Sicrwydd Cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fynd ymhellach a gweithio gyda'r Byrddau Cynghori i sicrhau mwy o amrywiaeth ar eu Byrddau a chydbwysedd rhwng y rhywiau, gan wneud hynny drwy'r Fframweithiau Sicrwydd Cenedlaethol ........ Tudalen 51

Cam Gweithredu 4: Yn unol ag argymhellion adolygiad Graystone a SQW, dylai'r Byrddau Cynghori fabwysiadu pwyslais mwy strategol, gan gyhoeddi gwell adroddiadau sgiliau a chyflogaeth 3 blynedd rhanbarthol. Dylai'r adroddiadau hyn gyflwyno gwybodaeth a dadansoddiad manwl ar lefel wirioneddol strategol sy'n ystyried ffynhonnau sgiliau diwydiant, rhwystrau ac ati i lywio a chynorthwyo'r ystod gyfan o ddarparwyr addysg a rhanddeiliaid eraill, a all gyflwyno eu cynigion

ar gyfer ymateb wedyn. Dylai'r cynlluniau gynnwys y materion yng Nghamau Gweithredu 1 a 2 uchod. ........ Tudalen 51

Cam Gweithredu 5: Trwy'r Fframweithiau Sicrwydd Cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Byrddau Cynghori i nodi mesurau meintiol ac ansoddol y gellir eu defnyddio i fesur a chyfleu effaith y Byrddau i randdeiliaid. Os yw'r Byrddau Cynghori'n mynd i fwynhau hyder diwydiant, mae'n rhaid iddynt allu cynnig prawf diamwys bod amser ac ymdrech cyflogwyr i ymgysylltu â nhw wedi bod yn werth chweil ac yn effeithiol. ........ Tudalen 52

Cam Gweithredu 6: Dylid dynodi un Bwrdd Cynghori i gynrychioli a gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer cyrff cenedlaethol mawr ag anghenion sgiliau cenedlaethol fel y diwydiant adeiladu a Trafnidiaeth Cymru. Dylai'r Bwrdd Cynghori hwn gael adnoddau priodol a dylai eu hadroddiadau sgiliau a chyflogaeth rhanbarthol roi sylw penodol i anghenion sgiliau cenedlaethol cyfanredol cyrff o'r fath. ........ Tudalen 52

Cam Gweithredu 7: Fel blaenoriaeth, **mae'n rhaid cryfhau'n sylweddol y gallu i gasglu a dadansoddi data ym mhob Bwrdd Cynghori**. Er mwyn cyflawni cymaint o werth am arian a phosibl, ac yn unol â phwyslais Llywodraeth Cymru ar eu cenhadaeth ddinesig, dylid gwneud hyn drwy ddefnyddio'r **arbenigedd ymchwil o'r radd flaenaf yn y byd a ariennir yn gyhoeddus ym mhrifysgolion Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru felly weithio gyda CCAUC a phrifysgolion Cymru i sefydlu partneriaethau ffurfiol rhwng prifysgolion a phob Bwrdd Cynghori** i gynnal ymchwil a dadansoddi data ar eu rhan a chynnig gwasanaeth ymgynghori ar fethodoleg ymchwil. ........ Tudalen 52

Cam Gweithredu 8: Fel blaenoriaeth, **mae'n rhaid gwella'n sylweddol y gallu i gasglu a dadansoddi data ar y Gymraeg ym mhob Bwrdd Cynghori**. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall hwyluso model sy'n caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cenedlaethol Cymraeg ddefnyddio eu harbenigedd a'u hymchwil presennol i helpu ystyriaethau Cymraeg prif ffrwd y bartneriaeth a hysbysu eu hadroddiadau 3 blynedd. ........ Tudalen 52

Cam Gweithredu 9: Fel blaenoriaeth, mae'n rhaid neilltuo mwy o adnoddau i ymgysylltu â chyflogwyr, yn enwedig â busnesau bach a chanolig, a gwella hynny'n sylweddol. Unwaith eto, trwy wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i ddefnyddio ased gwerthfawr sy'n bodoli eisoes ar ffurf ein rhwydwaith helaeth o ddarparwyr prentisiaethau ac isgontractwyr a ariennir yn gyhoeddus. Mae gan y darparwyr hyn, yn ddiofyn, gysylltiadau llawer agosach â busnesau bach a chanolig nag y gall y Byddai Cynghori obeithio eu cael – mae cysylltiadau o'r fath yn ased gwerthfawr. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddefnyddio ei

chytundebau ariannu i gyflwyno telerau rhesymol ar y darparwyr preifat (a'u 90+ o isgontractwyr) i ymgysylltu â'u rhwydweithiau cyflogwyr a'r Byrddau Cynghori i harneisio eu gwybodaeth sylweddol am y galw yn y farchnad. ........................ Tudalen 52

Cam Gweithredu 10: Yn unol â rhagolwg mwy strategol, ni ddylai Llywodraeth Cymru ofyn i Fyrddau Cynghori wneud argymhellion gweithredol ar niferoedd dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach mwyach, hyd yn oed ar y lefel sector-pwnc bresennol. Yn hytrach, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysg bellach roi sylw amlwg i'r adroddiadau Byrddau Cynghori 3 blynedd fwy strategol a seiliedig ar wybodaeth wrth gytuno ar eu cynlluniau cyflawni terfynol, gan eu grymuso a'u cymell i ymateb i'r materion a nodwyd yn yr adroddiadau hynny. ........................ Tudalen 53

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda chyrff cynrychioli'r diwydiant a Cymwysterau Cymru a chyhoeddi cynllun gweithredu i sicrhau bod y seilwaith sgiliau ehangach yn cael ei ailadeiladu ac yn seiliedig ar sefydliadau a strwythurau sy'n addas ar gyfer y lefel amserol o graffu a'r arbenigedd dwfn sy'n ofynnol. Nid yw Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol, Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn disodli craffu gofalus ac amserol ar lefel sector a chymeradwyo cymwysterau a chynnwys. ........................ Tudalen 53

# 1. Cefndir yr ymchwiliad

Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ddylanwad dros bron £400 miliwn o ddarpariaeth sgiliau, gallant wneud argymhellion sy'n effeithio ar ddegau o filoedd o ddarpar ddysgwyr, ac maent wedi dod yn fwyfwy canolog i bolisi addysg ac economaidd Llywodraeth Cymru. Gan fod eu cylch gwaith mor bwysig, roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall pa mor dda y maent yn gweithio.

**1.** Ym mis Hydref 2018, o ystyried eu dylanwad cynyddol a'u swyddogaeth allweddol o ran datblygu economaidd rhanbarthol, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (neu "y partneriaethau").

**2.** Prif ddiben yr ymchwiliad oedd archwilio i ba mor dda yr oedd y partneriaethau'n gweithio'n ymarferol a gwneud argymhellion eglur ac adeiladol ar wella eu gwaith a'u heffeithiolrwydd. Arweiniodd y materion sy'n wynebu'r partneriaethau a'r cyfyngiadau ar eu gwaith at ymchwiliad heriol.

**3.** Yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail adolygiad i'r partneriaethau, a gynhaliwyd gan gwmni o'r enw SQW[1]. Cyhoeddwyd yr adolygiad hwn ym mis Mai 2019 gan ddefnyddio rhywfaint o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yn yr ymchwiliad hwn.

**4.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n fras â'r argymhellion yn adolygiad blaenorol 2018 Graystone[2] o lywodraethiant partneriaethau ac adolygiad 2019 SQW. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu arnynt ac yn parhau â'r gwaith o ddatblygu'r partneriaethau.

[1] https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/Adroddiad%20SQW%20ar%20Partneriaethau%20Sgiliau%20Rhanbarthol.pdf

[2] https://senedd.assembly.wales/documents/s80869/CYPE5-33-18%20Paper%20to%20note%201.pdf

## Cylch gorchwyl

**5.** Cytunodd y Pwyllgor i roi ystyriaeth i'r canlynol:

- Deall pa mor effeithiol y mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn adlewyrchu'r galw am sgiliau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn enwedig anghenion yr economi sylfaenol a'r ddarpariaeth o sgiliau trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys:
    - Archwilio dibynadwyedd a dilysrwydd y dystiolaeth a ddefnyddir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddod i'w casgliadau
    - Archwilio effeithiolrwydd eu gweithgarwch ymgysylltu a'r mewnbynnau galw a chyflenwad sy'n llunio eu casgliadau
    - Archwilio sut mae eu swyddogaethau Bargenion Dinesig a Thwf yn dylanwadu ar eu gwaith;
- Deall a oes gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaeth gynyddol
- Deall sut mae gwaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i lunio darpariaeth sgiliau "ar lawr gwlad" gan gynnwys:
    - Archwilio lefel y manylion gweithredol sy'n cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru o ran gweithgarwch sefydliadau addysg bellach.
- Deall yn gyffredinol beth sy'n gweithio'n dda, a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, ac a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol o sut y mae polisi Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol cyfredol yn gweithredu gan gynnwys
    - Archwilio darpariaeth yn erbyn amcanion y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'u heffaith;
    - Archwilio'r pwyslais penodol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel ffynhonnell gofynion sgiliau rhanbarthol
- Ystyried gwelliannau i'r ffordd bresennol o weithio ac unrhyw safbwyntiau y gallai rhanddeiliaid eu cynnig ar fodelau amgen posibl ar gyfer alinio darpariaeth sgiliau ag anghenion economi Cymru.

## Casglu tystiolaeth

**6.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng 24 Ionawr a 4 Mawrth 2019. Daeth i law 29 o ymatebion[3] gan amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys y tair partneriaeth, darparwyr addysg a chyrff cynrychioli.

**7.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth llafar[4] rhwng 21 Mawrth a Mai 2019 yn cynnwys wyth gwahanol banel ac a thystiolaeth gan Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r Gweinidog Addysg.

[3] www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=339

[4] www.senedd.cynulliad.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=24100

# 2. Cefndir y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Bwrdd gwirfoddol, anstatudol sy'n cynnwys cyflogwyr, darparwyr addysg ac eraill yw pob partneriaeth. Mae'r byrddau yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyrsiau coleg a phrentisiaeth llawn amser a niferoedd dysgwyr. Sefydlwyd pob un o'r partneriaethau ar wahanol adeg rhwng 2007 a 2014, ac mae pob un wedi esblygu'n annibynnol, wedi ei lunio gan ei ranbarth ei hun ac yn fwy diweddar, eu Bargeinion Dinesig a Thwf priodol.

**8.** Ceir tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar hyn o bryd, fel a ganlyn:

- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru: sy'n "ffrwd gwaith" i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn dechnegol[5];
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru: sy'n gysylltiedig â Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn darparu cefnogaeth i'r Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru arfaethedig[6];
- Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-ranbarth Caerdydd: a elwid gynt yn "LSkIP" ac sy'n gysylltiedig â Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-ranbarth Caerdydd ar wahân i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau y Fargen Ddinesig ei hun o safbwynt cyfreithiol, ond yn ymarferol mae aelodaeth y Bwrdd yr un fath ar gyfer y ddau strwythur.[7]

**9.** Mae gan y partneriaethau ran i'w chwarae o fewn model datblygu economaidd rhanbarthol Llywodraeth Cymru a gryfhawyd yn ddiweddar. Bwriedir iddynt fynd i'r afael â phrinder sgiliau trwy ddylanwadu ar ddarpariaeth sgiliau yn eu rhanbarthau ar sail gwybodaeth am y farchnad lafur a mewnwelediad a arweinir gan gyflogwyr.

---

[5] https://northwaleseab.co.uk/jobs-and-skills/regional-skills-partnership

[6] www.rlp.org.uk/?doing_wp_cron=1568638904.1833291053771972656250

[7] www.cardiffcapitalregion.wales/sector/skills-partnership/

**10.** Mae pob partneriaeth yn cynnwys bwrdd anstatudol a chwbl wirfoddol a ategir gan wasanaeth cyflogedig bach o 2-3 aelod o staff.

**11.** Mae pob partneriaeth yn ymgymryd â gwaith ar gyfer ei Bargen Ddinesig a Thwf ei hun yn ôl yr angen, ond mae pob un yn cael cyllid (tua £160,000 yr un y flwyddyn) gan Lywodraeth Cymru i gyflawni cyfres gyson o dasgau ar ei rhan. Nodir y tasgau hyn yn eu llythyrau contract.

**12.** Mater i bob Bwrdd unigol yw ei aelodaeth ond mae'n cynnwys cynrychiolwyr o sectorau economaidd perthnasol, darparwyr addysg a sawl sefydliad arall fel y trydydd sector, Llywodraeth Cymru, cyrff cynrychioli diwydiant ac yn y blaen.

**13.** Gan fod y partneriaethau yn anstatudol, telir cyllid Llywodraeth Cymru i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) sydd yn ei dro yn cyflwyno contractau a chyllid i gorff atebol ar ran pob partneriaeth. O'r cyllid hwn y mae'r partneriaethau yn cynnal eu staff gwasanaeth cyflogedig. Cyngor Gwynedd yw'r corff atebol ar gyfer gogledd Cymru; Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer de-orllewin a chanolbarth Cymru; a CLlC sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon ar gyfer de- ddwyrain Cymru ar adeg ysgrifennu hyn.

**14.** Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r partneriaethau lunio dau ddarn allweddol o waith: Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol 3 blynedd gydag Adroddiadau Blynyddol ar gynnydd, a llenwi taenlen Cynllunio ac Ariannu Rhanbarthol erbyn mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r taenlenni Cynllunio yn cynnwys argymhellion manwl ar gyfer niferoedd myfyrwyr addysg bellach llawn amser a blaenoriaethau rhaglenni prentisiaeth.

**15.** Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r templedi gorffenedig i'w helpu i ateb y galw am brentisiaethau ac wrth gytuno ar y cynlluniau cyflawni terfynol y mae'n rhaid i bob coleg addysg bellach eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i ddatgloi ei ddyraniad cyllid. Mae'r cynlluniau cyflawni terfynol hyn yn cynnwys pa raglenni a faint o fyfyrwyr fesul rhaglen y mae'r coleg yn ceisio eu darparu yn y flwyddyn academaidd sydd i ddod ac mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth yr argymhellion sydd yn y taenlenni Cynllunio ac Ariannu Rhanbarthol oni bai y gall y colegau gyfiawnhau unrhyw wyriad oddi wrthynt.

**16.** Ar ôl i'r cynlluniau cyflawni terfynol gael eu cytuno â Llywodraeth Cymru, o dan reolau newydd o 2019-20 bydd disgwyl i golegau recriwtio dysgwyr yn unol â nhw gydag unrhyw dan-ddarpariaeth neu orddarpariaeth yn destun adfachiad

ariannol posibl. Mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio bod y taenlenni yn ymarferol yn effeithio ar 10-15 y cant o'r holl ddarpariaeth gan y colegau.[8]

## Y cyd-destun polisi

**17.** Yn ei bapur i'r Pwyllgor, esboniodd Llywodraeth Cymru fod ei Datganiad Polisi ar Sgiliau yn 2014[9] yn arwydd o symudiad tuag at weithio rhanbarthol, gyda symudiad polisi oddi wrth ddull seiliedig ar sectorau.

**18.** Nododd Ffyniant i Bawb[10] symudiad cyffredinol tuag at fodel rhanbarthol o ddatblygu economaidd lle byddai'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn chwarae rhan, wrth i'r strategaeth esbonio:

> "[byddwn yn] diwygio'n darpariaeth datblygu economaidd a meithrin sgiliau er mwyn gweithio'n rhanbarthol, gan adeiladu ar y tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr."

**19.** Nodwyd ymhellach gan y Cynllun Gweithredu Economaidd dilynol[11] y rhan ganolog y bydd y partneriaethau yn ei chwarae yn strategaeth Llywodraeth Cymru, gan ddisgrifio model ar gyfer gweithio rhanbarthol sy'n gwneud swyddogaeth Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn rhan annatod o'r model cyflawni ar gyfer datblygu economaidd.

**20.** Ar yr un pryd ag y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn esblygu ei strategaeth economaidd ranbarthol, cyhoeddwyd dwy Fargen Ddinesig (Prifddinas-ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe) a Bargen Twf (Gogledd Cymru) ac mae'r drafodaeth yn parhau ynghylch Bargen Twf arall i Ganolbarth Cymru. Mae gan bob un o'r partneriaethau sgiliau berthynas o ryw fath â'u Bargen briodol.

**21.** Roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ar sut mae datblygiad y Bargeinion Dinesig a Thwf wedi cael effaith ar waith y bartneriaeth yn canolbwyntio ar yr angen am atebolrwydd eglur rhwng y gwaith sy'n ofynnol gan y Bargeinion a'r gwaith sy'n ofynnol gan gontractau Llywodraeth Cymru.

**22.** Fodd bynnag, dywedodd David Jones o Goleg Cambria wrth y Pwyllgor fod ganddo bryderon bod y Bargeinion Dinesig a Thwf sydd wedi eu dominyddu gan awdurdodau lleol yn peri risg i gynghorau'n cael rheolaeth sylweddol dros golegau unwaith eto. Dywedodd:

---

[8] Para 185, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019
[9] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/policy-statement-on-skills.pdf
[10] https://gweddill.gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf
[11] https://gweddill.gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf

> "I have to say, as colleges, this might seem a little parochial, but up until 1993 we were part of the local authority set-up in Wales [...] But since then we've had a level of independence, [...] and our concern is that—with all this checking of all that we do in our colleges through an RSP, and then the RSPs are increasingly, in the north at least, being responsible to the ambition board, which is led by the six local authorities—it almost feels like going back to 1993 through the back door. I'm sure there isn't a plan there, but that is a genuine concern for us."[12]

**23.** Ni dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth a oedd yn dadlau dros gefnu ar y partneriaethau. Yn hytrach, roedd barn gref bod rhyw fath o gorff cydgysylltu sgiliau rhanbarthol yn angenrheidiol ac yn ddefnyddiol.

## Sut mae polisi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi esblygu

**24.** Sefydlwyd pob partneriaeth yn gyfan gwbl ar wahân ac ar wahanol adegau yn 2007, 2013 a 2014. Fe'u crëwyd trwy sefydliad llawr gwlad yn hytrach na chan Lywodraeth Cymru, ac maent wedi parhau i esblygu ers hynny yn unol â chyd-destun eu rhanbarthau a'u Bargeinion Dinesig/Twf.

**25.** Darparodd Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau[13] 2014 y sail wreiddiol ar gyfer cyfranogiad cyson Llywodraeth Cymru yng ngwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar wahân ar y pryd, gan nodi:

> "Rydym yn rhoi'r pedair rôl allweddol ganlynol i'r partneriaethau rhanbarthol:
>
> - Cynhyrchu a dadansoddi LMI (Gwybodaeth am y Farchnad Lafur) sy'n gydnaws â gwybodaeth economaidd er mwyn llywio'r gofynion sgiliau yn y rhanbarthau a llywio ein blaenoriaethau i'r dyfodol ar gyfer cyllid wedi'i gysylltu â'n polisi buddsoddi ar y cyd.
> - Darparu peirianwaith i adolygu'r ddarpariaeth sgiliau ranbarthol a chynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu cyllid sgiliau i'r dyfodol yn unol ag anghenion sgiliau a chyflogaeth rhanbarthol.
> - Gweithredu fel corff strategol sy'n cynrychioli buddiannau rhanbarthol yn effeithiol er mwyn llywio system sgiliau gynaliadwy sy'n cael ei harwain gan y galw, gan sicrhau bod y system hon yn

[12] Para 243, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[13] https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/140714-skills-implementation-plan-cy.pdf

cael ei llywio gan gysylltiad cadarn â diwydiant a'i bod yn rhoi ystyriaeth i'r lefelau y caiff sgiliau eu defnyddio yn y rhanbarth.

- Gweithredu ar y cyd ac yn strategol i wneud y gorau o'r cyllid fydd ar gael i'r dyfodol gan gydnabod y bydd arian cyhoeddus yn debygol o leihau dros y blynyddoedd nesaf."

**26.** Ail-bwysleisiodd Ffyniant i Bawb bwysigrwydd y partneriaethau wrth i'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi fynd ymlaen i nodi'r sail ranbarthol ddiwygiedig ar gyfer datblygu economaidd a chryfhau swyddogaeth y partneriaethau ynddo. Roedd y cynllun hefyd yn cysylltu'r partneriaethau â chreu arfaethedig y corff cyllido strategol Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (a elwid yn TERCW ar un adeg, ond fel yn CTER erbyn hyn a disgwylir iddo gael ei sefydlu erbyn 2023).

**27.** Nododd Adroddiad Cynnydd y Cynllun Cyflogadwyedd (2018)[14] y byddai gofyn nawr i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ddarparu cynllun cyflogadwyedd a sgiliau rhanbarthol 3 blynedd mwy strategol yn hytrach na'r fersiwn flynyddol yr oedd yn rhaid iddynt ei gynhyrchu ar y pryd, ond nid oedd yn ehangu cylch gwaith y partneriaethau o addysg bellach amser llawn a'r rhaglen brentisiaeth. Esboniodd y cynllun:

- "Rydym yn cydnabod y rôl holl bwysig sydd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i'w chwarae i bennu blaenoriaethau rhanbarthol strategol, gan weithio'n glos gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid. Maent yn bartner allweddol yn y gwaith o weithredu'r dull datblygu economaidd rhanbarthol a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Economaidd."

**28.** Yn 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o lywodraethiant y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol - adolygiad Graystone - gan adlewyrchu eu dylanwad cynyddol dros lefelau sylweddol o ddarparu sgiliau. Gwnaeth yr adolygiad sawl argymhelliad i wella llywodraethiant, i wella atebolrwydd, i wneud penderfyniadau'r Byrddau yn fwy tryloyw ac i bennu cyfres gyson o ddisgwyliadau trwy Fframwaith Sicrwydd Cenedlaethol. Argymhellodd hefyd:

> "that RSPs should remain voluntary partnerships and not adopt legal structures and that Welsh Government should review the resources of RSPs given their increased role."

[14] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/cynllun-cyflogadwyedd-adroddiad-cynnydd-2018.pdf

**29.** Nid yw'n eglur i'r Pwyllgor pa gynnydd a wnaed tuag at weithredu'r holl argymhellion hyn.

**30.** Dilynwyd adolygiad Graystone ym mis Mai 2019 gan ail adolygiad a gynhaliwyd gan SQW. Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y mewnwelediad a'r wybodaeth a gynhyrchwyd gan y partneriaethau a sut maent yn gweithio gyda'u Bargeinion Twf a Dinesig perthnasol. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion gyda'r bwriad o gryfhau gwybodaeth a mewnwelediad rhanbarthol gan gynnwys pwyslais mwy strategol gan y partneriaethau, ymgysylltu gwell â chyflogwyr, defnyddio amrywiaeth ehangach o dystiolaeth, a pharhau i wneud argymhellion gweithredol manwl ar niferoedd dysgwyr addysg bellach.

# 3. Trapiau sgiliau isel a phrinder sgiliau

Mae trapiau sgiliau isel yn arwain at arafu rhannau o economi gan gylch o alw isel ymhlith cyflogwyr am sgiliau uwch a gweithlu sgiliau isel sydd â fawr o gymhelliant i uwchsgilio o ganlyniad. Mae trapiau sgiliau isel a phrinder sgiliau yn gysylltiedig â chanlyniadau economaidd a phersonol negyddol, gan gynnwys cyflogau isel a chynhyrchiant isel.

**31.** Mae Cymru yn wynebu "bwlch cynhyrchiant"[15]. Mae'n rhaid cau'r bwlch hwn i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o "ffyniant i bawb". Fodd bynnag, ceir rhannau o economi Cymru sy'n gweithio mewn ffyrdd sy'n cynyddu'r bwlch hwn.

**32.** Mewn termau academaidd, mae rhannau o economi Cymru yn dioddef "ecwilibriwm sgiliau isel". Yn aml, gelwir y rhain yn drapiau sgiliau isel - trapiau oherwydd eu bod yn cynnwys cylch dieflig o alw cyfyngedig am weithwyr medrus iawn, sy'n arwain at weithlu â sgiliau isel, sydd yn ei dro yn gosod cyfyngiadau ar arloesi a thwf, sydd yn ei dro yn parhau'r galw cyfyngedig am weithwyr medrus iawn - ac felly mae'r cylch yn parhau. Mae'r trap hwn i'w weld ar y dudalen nesaf.

**33.** Dywedodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wrth y Pwyllgor ei fod yn cytuno'n fras bod rhannau o economi Cymru yn dioddef ecwilibriwm, neu drap sgiliau isel (defnyddir y term trap yng ngweddill yr adroddiad hwn). Aeth ymlaen i ddweud:

> "Over the past 20 years, [we have] wrestled with the problem of underemployment and low skills [...] there are still too few businesses investing in the skills of their workforce."[16]

**34.** Ar yr un pryd, fel rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae economi Cymru yn dioddef llawer o aneffeithlonrwydd neu gamgymhariadau sgiliau yn y gweithlu sydd hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau personol ac economaidd gwael: prinder sgiliau wrth geisio recriwtio i swyddi gwag, bylchau sgiliau mewn gweithluoedd presennol, a thanddefnyddio sgiliau.

[15] https://gweddill.gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf

[16] Para 9, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019




*Ffynhonnell: Dyfodol Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU*

**35.** Fel y nodwyd mewn adroddiad yn 2017 gan Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU[17], gall camgymhariaeth rhwng sgiliau ac anghenion sgiliau arwain at:

- Brinder sgiliau (pan fo'n anodd llenwi swyddi gwag oherwydd prinder ymgeiswyr medrus)
- Bylchau sgiliau (pan nad ystyrir bod gweithwyr yn gwbl hyddysg yn eu swyddogaeth)
- Tanddefnyddio sgiliau / gwarged sgiliau (pan fo cyflogeion yn rhy gymwysedig ar gyfer y swydd y maent ynddi / pan fo'r galw gan gyflogwyr am weithwyr â sgiliau isel yn bennaf).

**36.** Mae'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr diweddaraf o 2017[18] yn dangos bod cyflogwyr Cymru wedi nodi cynnydd mewn swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi oherwydd

17 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/727776/Foresight-future-of-skills-lifelong-learning_V8.pdf

18 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/746494/ESS_2017_Wales_Slide_Pack_v04.00.pdf

prinder sgiliau yn 2017 (27% o swyddi gwag); er bod bylchau sgiliau yn y gweithluoedd presennol wedi aros yr un fath fwy neu lai (roedd gan 4.7% o'r holl staff fwlch sgiliau) a chafwyd cynnydd i'r gyfradd tanddefnyddio staff i 9.5%.

**37.** Mae'r adroddiad Dyfodol Sgiliau a Dysgu Gydol Oes[19] a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU yn dadlau bod camgymhariadau sgiliau fel y rhai uchod yn uchel yn y DU o'u cymharu â llawer o wledydd, ac eto i gyd mae'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn dangos bod Cymru yn perfformio'n waeth na chyfartaledd y DU.

**38.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Fel yr esboniodd i'r Pwyllgor yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

> "Roedd y dyhead yn glir. [Mae gan] y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ran allweddol i'w chwarae sef helpu i chwalu'r cylch o sgiliau isel, cyflogau isel a chynhyrchiant isel. Byddai modd iddynt adnabod bylchau mewn sgiliau a phrinder sgiliau ym mhob rhanbarth drwy [...] ddefnyddio gwybodaeth gan gyflogwyr a rhanddeiliaid."[20]

## Trapiau sgiliau isel a'r tensiwn ym mholisi Llywodraeth Cymru

**39.** Daeth y syniad o ecwilibriwm neu drap sgiliau isel i'r amlwg yn yr 1980au pan ddechreuodd ymchwilwyr archwilio'r cysylltiad rhwng cyflogau isel, sgiliau isel ac allbwn gwerth ychwanegol isel cyson.

**40.** Nid oes diffiniad safonol o ecwilibriwm neu drap sgiliau isel, ond mae'r cysyniad yn seiliedig ar:

> "the theory that some economies with deficient levels of skills and output suffer from a mutual causality between low skills acquisition by the workforce and low skill utilisation by firms."[21]

**41.** Fel enghraifft o drap sgiliau isel a nodwyd, mae Llywodraeth Cymru, yn ei chynllun Trawsnewid Sgiliau yn y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru, yn nodi'r canlynol:

> "Ceir ymrwymiad isel ymhlith busnesau [bwyd a diod] Cymru i hyfforddi - ceir ecwilibriwm isel o sgiliau sy'n golygu nad yw cwmnïau'n gweld

[19] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/727776/Foresight

[20] Tystiolaeth ysgrifenedig EIS(5)-13-19(t4)

[21] www.nerinstitute.net/download/pdf/a_low_skills_equilibrium_in_northern_ireland.pdf

> gwerth hyfforddi ac felly nid ydynt yn hyfforddi - ac felly nid ydynt yn gweld gwerth hyfforddi."[22]

**42.** Gall trapiau sgiliau isel fodoli, yn syml, oherwydd nad oes angen gweithwyr medrus neu gymwysedig iawn ar rai sectorau a diwydiannau i ddarparu eu gwasanaethau neu weithgynhyrchu nwyddau "manyleb isel" fel y'u gelwir: gallant wneud elw, ac maent yn gwneud elw, gyda gweithlu â sgiliau isel. Fodd bynnag, gall hyn gyfyngu wedyn ar allu'r cyflogwr i ehangu neu arloesi, gan dynnu cynhyrchiant i lawr.[23]

**43.** Mae trapiau sgiliau isel yn peri problem sylfaenol i gysyniad y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Os mai'r cyfan y maent yn ei wneud yw adlewyrchu'n ffyddlon galw'r diwydiant am sgiliau mewn sectorau nad oes ganddynt unrhyw ofyniad am sgiliau lefel uwch, maent mewn perygl o atgyfnerthu trapiau sgiliau isel a pharhau â chanlyniadau personol ac economaidd gwael y mae polisi i fod eu goresgyn. Gall hyn greu tensiwn rhwng y galw gwirioneddol am sgiliau gan ddiwydiant a'r lefelau sgiliau sy'n gysylltiedig â swyddi a chyflogau o ansawdd uchel.

**44.** Un o nodau allweddol polisi Llywodraeth Cymru yw "codi'r lefel sgiliau gyfartalog"[24] yng Nghymru. O'r herwydd, mae wedi bod yn cyfyngu'n raddol ar fynediad at Brentisiaethau Sylfaen Lefel 2 yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar Brentisiaethau safonol ac Uwch. Ym maes addysg bellach, dywedodd Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysg Bellach a Phrentisiaethau wrth y Pwyllgor:

> "What we're trying to do is to nudge gently towards level 3 and above, whereas perhaps 10 years ago we would have settled for a level 2 outcome. And the reason that we're nudging gently towards level 3 and above is because all the research tells us that an individual's life chances are better if they achieve level 3 or above."[25]

**45.** Clywodd y Pwyllgor gan y partneriaethau sut mae'r tensiynau rhwng galw am rai sgiliau a pholisi Llywodraeth Cymru o godi lefelau cyfartalog cymwysterau yn

---

[22] https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/180209%20F%26D%20Industry%20Skills%20A4%20WEL.pdf

[23] https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/cysonir_model_prentisiaethau_ag_anghenion_economi_cymru_0.pdf

[24] Para 37, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

[25] Para 37, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

amlygu eu hunain ar lawr gwlad. Esboniodd Sian Lloyd Roberts o bartneriaeth Gogledd Cymru:

> "The steer we get is from Welsh Government. They're pushing higher level skills and qualifications [...] They're pushing us towards that way [...] there have been some tensions there [...] and what happens in terms of health and social care, in particular for us, because we have as a region identified level 2 apprenticeships in health and social care, but because Welsh Government's non-priority directive says that we're not allowed to, [...] FE and work-based learning can't then respond to what we're saying is a regional priority."[26]

**46.** Mae'r Pwyllgor yn teimlo mai'r pwynt allweddol yma i Lywodraeth Cymru a llunwyr polisi yw nad yw'n ddigon codi lefelau cymwysterau yn y boblogaeth. Y cyfan a wna hyn yw creu tensiwn annefnyddiol rhwng galw a chyflenwad a allai ddieithrio cyflogwyr nad ydynt yn gweld bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

**47.** Mae'n rhaid i'r cynnydd i lefelau cymwysterau gael ei ategu gan ysgogi'r galw gan ddiwydiant am weithlu medrus iawn neu ceir perygl o gynyddu'r tanddefnydd o sgiliau.

**48.** Mae'r Pwyllgor yn teimlo'n gryf bod y dystiolaeth yn dangos bod yn rhaid felly i ymyrraeth mewn trap sgiliau isel fynd i'r afael â'r cyflenwad o sgiliau a'r galw am sgiliau lefel uchel: mae hwb o'r ochr gyflenwi yn unig yn annhebygol o fod yn ddigon ar ei ben ei hun.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog bod rhannau o'r economi yng Nghymru mewn cylch dieflig o sgiliau isel, cyflogau isel a chynhyrchiant isel – hynny yw, maent mewn trap sgiliau isel. Mae hyn yn golygu bod cwmpas yr her yn mynd y tu hwnt i ddim ond gwneud argymhellion yn unol â galw'r diwydiant ac yn ymestyn i ymyriadau ar ochr y galw i ysgogi galw am sgiliau lefel uwch ymhlith cyflogwyr. Mae peidio â gwneud hyn wrth gynyddu lefelau cymwysterau cyfartalog y boblogaeth yn peri risg o ddisodli trapiau sgiliau isel â gwargedion sgiliau sydd yr un mor aneffeithlon.

## Y darlun sgiliau yng Nghymru

**49.** Mae'r darlun sgiliau a chymwysterau yng Nghymru wedi newid yn ddramatig ers datganoli. Mae lefelau cymwysterau ymhlith poblogaeth oedran gweithio

[26] Para 66, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

Cymru wedi bod yn cynyddu dros amser a rhagwelir y byddant yn parhau i gynyddu.[27] Yn ôl ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru:

- Yn gyffredinol yn 2001, nid oedd gan 21% o'r boblogaeth oedran gweithio unrhyw gymwysterau, tra bod gan 22.1% gymhwyster ar Lefel 4 ac uwch.
- Erbyn 2018, roedd hyn wedi newid i 7.9% heb unrhyw gymwysterau a 38% yn meddu ar gymhwyster ar Lefel 4 ac uwch.[28]

**50.** O ran galwedigaethau, a lefel y sgìl sy'n ofynnol i'w cyflawni, bu newid llai sylweddol ond bu'r cyfeiriad

- tuag at alwedigaethau sgiliau uwch; a
- chynnydd sylweddol i lefelau cymwysterau'r rhai yn y galwedigaethau sgiliau isaf.[29]

**51.** Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad gweithwyr ymhlith y galwedigaethau lleiaf a mwyaf medrus yn ôl dosbarthiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.[30]

| Canran y bobl gyflogedig yng Nghymru yn ôl galwedigaeth yr SYG | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ion-Rhag 2004 | | | Ion-Rhag 2018 | | |
| Lleiaf medrus | Lefel 1 | 12% | Lleiaf medrus | Lefel 1 | 11% |
| | Lefel 2 | 39% | | Lefel 2 | 35% |
| Mwyaf medrus | Lefel 3 | 27% | Mwyaf medrus | Lefel 3 | 29% |
| | Lefel 4 | 21% | | Lefel 4 | 25% |

**52.** Yn arwyddocaol, mae lefelau cymwysterau yng Nghymru yn codi gyflymaf yn y galwedigaethau sgiliau is.

**53.** Mae cyfran y gweithlu mewn galwedigaethau a ddosberthir gan y SYG fel rhai elfennol sy'n meddu ar gymhwyster Lefel 4 ac uwch wedi cynyddu 69%

27 https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/cysonir_model_prentisiaethau_ag_anghenion_economi_cymru_0.pdf

28 https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/levels-of-highest-qualification-held-by-working-age-adults-2018-731.pdf

29 Ystadegau Marchnad Lafur Swyddogol Nomis

30 Ibid

rhwng 2011 a 2018, a 41% ar gyfer galwedigaethau a ddosberthir gan y SYG fel rhai gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid.[31]

## Y darlun sgiliau yn y dyfodol a'r angen i ddarpariaeth sgiliau ymdopi â newid

**54.** Bydd y darlun hwn yn parhau i newid yng Nghymru ac yn y DU mewn nifer o ffyrdd.

**55.** Mae cyhoeddiad Working Futures 2014[32], a ddefnyddiwyd gan y partneriaethau wrth ysgrifennu eu cynlluniau sgiliau yn rhagweld:

- Bydd rhai sectorau yn tyfu a chynyddu eu cyfran nhw o'r gwerth ychwanegol gros (fel TG ac adeiladu) a sectorau eraill yn crebachu / lleihau eu cyfran nhw o'r gwerth ychwanegol gros (er enghraifft gweithgynhyrchu a chyfleustodau sylfaenol);
- Twf yn nifer y bobl a gyflogir mewn galwedigaethau proffesiynol, rheoli a phroffesiynol cysylltiedig (h.y. y galwedigaethau mwy medrus yn ôl dosbarthiad y SYG), a dirywiad mewn galwedigaethau fel gweithredwyr peiriannau a gweinyddiaeth; a
- Bydd gan dros hanner poblogaeth gyflogedig y DU gymhwyster ar Lefel 4 ac uwch, cynnydd o dros 5 miliwn o bobl.

**56.** Ar yr un pryd, cyhoeddwyd ac ysgrifennwyd llawr am effaith datblygiadau fel deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio a thechnolegau digidol ar yr economi gydag awtomeiddio yn benodol yn cael ei amlygu gan gyrff fel Prifysgolion Cymru a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.[33]

**57.** Ar adeg ysgrifennu hyn, nid yw adolygiad Llywodraeth Cymru o arloesi digidol (adolygiad Brown)[34] wedi cyhoeddi ei adroddiad llawn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad interim, er ei fod yn gwrthod penderfyniaeth dechnolegol ac yn dadlau

---

[31] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Lifelong-Learning/Qualification-Levels/highestqualificationlevelsofworkingageadultsinemployment-by-occupation-qualification

[32] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/513801/Working_Futures_final_evidence_report.pdf

[33] www.ippr.org/

[34] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/review-of-digital-innovation-interim-report-april-2019.pdf

nad yw technoleg yn ffawd, yn esbonio y bydd technoleg yn newid swyddi yn amlach na disodli rhai presennol yn llwyr:

> "Bydd y 'robotiaid' yn mynd â swyddi, yn creu swyddi, ond yn fwyaf oll yn newid swyddi."

**58.** Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod hyn yn creu her arbennig i'r system sgiliau yng Nghymru. Efallai na fydd newid o'r fath yn golygu rhaglenni newydd egsotig neu gymwysterau galwedigaethol cyffrous, ond yn hytrach bydd angen y dasg fwy cyffredin o ddiweddaru ac adnewyddu cymwysterau presennol yn gyson ac yn gyflym i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol wrth i swyddi newid; ac yr un mor bwysig yn datblygu dulliau darparu newydd i gefnogi dysgu gydol oes wrth i bobl newid gyrfaoedd.

**59.** O ganlyniad, roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael tystiolaeth bod y seilwaith sydd ar waith i sicrhau bod rhaglenni yn cael eu cynllunio'n dda, eu hadnewyddu ac yn destun craffu gofalus gan yr arbenigedd sector yn sicrhau bod eu perthnasedd i ddiwydiant wedi cael ei "erydu".

**60.** Dywedodd Joshua Miles o'r Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor:

> "We used to have a UK-wide advisory infrastructure that would look at things like sector skills councils and would say, 'These are the sectoral issues, this is how qualifications should look to respond to that.' That doesn't exist anymore. Welsh Government's trying to plug that gap with RSPs, with the WAAB—the Wales apprenticeship advisory board, with WESB—the Wales employment and skills board, and with the PCET reforms. But if we're going to do it properly on a Wales level, we're going to have to resource it properly and we're going to have to make sure that there's a good level of employer engagement."[35]

**61.** Er bod y mater hwn y tu allan i gwmpas caeth yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor yn teimlo nad yw'n bosibl dim ond ystyried nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer rhaglenni sgiliau penodol heb fod yn sicr bod y rhaglenni eu hunain o ansawdd da ac yn cadw'n gyfredol â swyddi sy'n newid. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor archwilio'r mater hwn yn fanylach mewn ymchwiliad yn y dyfodol.

**Casgliad 2.** Mae'n rhaid i ddysgwyr sy'n ymuno â'r farchnad lafur fod wedi cwblhau cyrsiau sydd o ansawdd uchel â chynnwys sy'n diwallu anghenion diweddaraf diwydiant. Mae'n rhaid i'r system sgiliau yng Nghymru fod yn ddigon hyblyg i nodi a gweithredu newid ac mae'n rhaid i hynny olygu bod ag

[35] Para 273, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 9 Mai 2019


arbenigedd sector yn ganolog iddi fel y gellir ysgrifennu, adnewyddu a chyfnerthu cymwysterau newydd mor gyflym â phosibl i sicrhau bod gan ddysgwyr a diwydiant hyder ynddynt.

# 4. Torri trapiau sgiliau isel a chysoni cyflenwad sgiliau â'r galw

## Mae'r canlyniadau economaidd a phersonol gorau yn gysylltiedig â'r galw mawr gan gyflogwyr am weithwyr medrus iawn, a marchnad lafur fedrus iawn. Ym marn y Pwyllgor, nid cynyddu lefel cymhwyster cyfartalog y boblogaeth yn unig yw'r heriau i Gymru, ond hefyd ysgogi galw cyflogwyr am y sgiliau lefel uwch hynny.

**62.** Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r dyhead yw sicrhau cydbwysedd sgiliau uchel yn hytrach nag ecwilibriwm sgiliau isel. Dyma lle ceir cyflenwad o weithwyr medrus iawn ynghyd â galw mawr gan gyflogwyr am y sgiliau lefel uchel hynny - cylch rhinweddol yn hytrach na dieflig.

**63.** Fel y gellir gweld isod, mae ecwilibriwm sgiliau uchel yn gysylltiedig â'r canlyniadau personol ac economaidd cadarnhaol y mae polisi Llywodraeth Cymru i fod eu sicrhau.




*Ffynhonnell: Low skill traps in sectors and geographies: underlying factors and means of escape, Anne Green, Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth, Prifysgol Warwick*

**64.** Prin yw'r wybodaeth yn y parth cyhoeddus ar hyn o bryd o ran pa rannau o Gymru neu ba sectorau sy'n cael eu dal mewn trap sgiliau isel - ni all hyn ond ei gwneud yn anoddach mynd i'r afael â nhw. Y cam cyntaf ar gyfer torri'r trapiau yw deall lle gellir dod o hyd iddynt.

**Casgliad 3.** Mae angen deall pa sectorau, lleoedd a rhanbarthau sy'n dioddef trapiau sgiliau isel fel y gellir mynd i'r afael â nhw trwy ysgogi galw cyflogwyr am sgiliau lefel uwch. Mae'n amlwg i'r Pwyllgor bod hyn yn gofyn am arweinyddiaeth a chydgysylltiad ar draws llawer o wahanol gyrff ac ar draws Llywodraeth Cymru. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gyrff amlwg ar gyfer gwneud hyn.

## Ffyrdd o gysoni'r cyflenwad o sgiliau â'r galw am sgiliau

**65.** Yn ôl y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ceir tri prif ddull[36] ar gyfer cysoni sgiliau â galw'r diwydiant:

- Dewis y dysgwr: pan fo darparwyr yn addasu eu cwricwlwm i gyd-fynd â galw'r dysgwyr. Ers 2012, pan ddechreuodd cyllid ddilyn y myfyriwr, hwn fu'r model a weithredwyd gan y sector addysg uwch.
- Cynllunio'r ddarpariaeth yn ganolog: pan fo corff canolog neu ranbarthol yn casglu data a gwybodaeth am y farchnad lafur i ragweld galw am sgiliau diwydiant fel y gellir cynllunio darpariaeth sgiliau yn unol â hynny. Dyma sail model y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- Penderfyniad y farchnad: pan fo dysgwyr yn rhydd i ddewis eu rhaglenni ond mae'r rhaglenni sy'n cael eu cynnig yn dibynnu ar alw'r cyflogwyr. Rhaglenni prentisiaeth, gan gynnwys yr un Gymraeg, yn eu hanfod yw'r brif enghraifft o'r model hwn - mae dysgwyr yn rhydd i ddewis rhaglenni prentisiaeth ond gallant, yn ôl eu diffiniad, ddim ond dewis prentisiaethau pan fo cyflogwyr yn barod i gynnig un.

**66.** Ceir anfanteision i bob un:

- Gellid dadlau nad model dewis y dysgwr yw'r ffordd fwyaf effeithlon o ddiwallu anghenion diwydiant hyd yn oed gydag ymdrechion cryf i arwain dysgwyr tuag at feysydd blaenoriaeth. Cafwyd beirniadaeth sylweddol o fodel dewis y dysgwr o addysg uwch yn y DU. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[37] wedi dadlau bod llawer o

[36] www.oecd.org/education/skills-beyond-school/43898253.pdf

[37] www.ons.gov.uk/news/news/oneinthreegraduatesovereducatedfortheircurrentrole

raddedigion wedi cael gormod o addysg ar gyfer eu swydd bresennol, tra bod Strategaeth Ddiwydiannol y DU yn dadlau bod prinder myfyrwyr sy'n barod i ddilyn cyrsiau STEM[38]. Mae'r adolygiad diweddar o ddarpariaeth Ôl-18 yn Lloegr, adolygiad Augar, yn nodi:

"Generous and undirected funding has led to an over-supply of some courses at great cost to the taxpayer and a corresponding undersupply of graduates in strategically important sectors."[39]

- Mae papur gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd[40] yn dadlau bod y model cynllunio canolog yn llawn problemau gwybodaeth. Mae rhagweld (yn ôl lleoliad a fesul sector galwedigaethol) union nifer y sgiliau sydd eu hangen mewn marchnad lafur benodol yn aml yn annibynadwy. Mae'r Pwyllgor wedi cael cryn dipyn o dystiolaeth gan randdeiliaid yn ystod yr ymchwiliad hwn sy'n adlewyrchu'r pryderon hynny yn union, ac mae'r Pwyllgor yn rhannu'r pryderon hynny.

- Ar yr olwg gyntaf, efallai ei bod yn ymddangos mai model penderfyniad y farchnad yw'r mwyaf deniadol, gan gyfuno dewis y dysgwr yn awtomatig ag anghenion y diwydiant. Fodd bynnag, heb ddylunio gofalus, gall prentisiaethau adlewyrchu anghenion plwyfol busnesau unigol yn hytrach nag anghenion yr economi ranbarthol a chenedlaethol neu anghenion tymor hwy'r dysgwr. Mae hon yn feirniadaeth a adlewyrchir mewn adroddiad IPPR[41] ar y system brentisiaethau yn Lloegr.

**67.** Ochr yn ochr â'r tensiwn rhwng nod Llywodraeth Cymru o gynyddu lefelau cymwysterau a galw diwydiant mewn rhai sectorau (a drafodir uchod), mae dewis y dysgwyr yn cynrychioli'r tensiwn sylfaenol arall.

**68.** Nododd Beverly Owen o bartneriaeth Prifddinas-ranbarth Caerdydd:

[38] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/664563/industrial-strategy-white-paper-web-ready-version.pdf#page=97

[39] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/805127/Review_of_post_18_education_and_funding.pdf

[40] www.oecd.org/education/skills-beyond-school/43898253.pdf

[41] www.ippr.org/files/publications/pdf/Englands_apprenticeships_Aug%202016.pdf

> "I think that balance between learner choice and industry need is one of the biggest challenges that we've got, not just for the RSPs, but for skills in Wales in totality. It's certainly something that the south-east Wales RSP and the Cardiff capital region, even at a cabinet level, are conscious of and are dealing with, but it's not going to be a quick win."[42]

**69.** Dywedodd Jane Lewis, o bartneriaeth Canolbarth a De-orllewin Cymru wrth y Pwyllgor:

> "One of the questions, is around how we can influence some of the career choices that are made in schools. And we don't have a remit to have that input at the moment, and I think that would be really important for us."[43]

**70.** Dywedodd y Gweinidog Addysg

> "I think we recognise that there is a tension between [learner choice and industry demand] and our job is to ensure that we are giving, as I said, best information and advice, and students are very, very clear about the economic opportunities and the job opportunities by pursuing this course. […] we are doing a disservice if an individual studies a course for which there is not a demand in the economy for those particular skills."[44]

**Casgliad 4.** Mae cyngor gyrfaoedd yn hanfodol i lesiant a ffyniant y dysgwyr ac mae'r Pwyllgor wedi ymchwilio i'r mater hwn mewn ymholiadau yn y gorffennol. Er bod y Pwyllgor yn cytuno â'r ddadl y gall cyngor gyrfaoedd helpu i annog dysgwyr i mewn i sectorau llewyrchus lle ceir prinder sgiliau, mae'n rhaid i ganllawiau gyrfaoedd fod yn ddiduedd gyda'r nod o fod o fudd i'r dysgwr, nid y cyflogwyr. Ceir y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau os bydd byrddau partneriaethau a'u haelodau o fyd diwydiant yn cymryd gormod o ran yn y broses o gynnig cyngor gyrfaoedd uniongyrchol i bobl ifanc. Dylai'r partneriaethau ganolbwyntio ar ochr y cyflogwr o'r dirwedd sgiliau, gan adael cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ar gyfer pobl ifanc i ysgolion, Gyrfaoedd Cymru ac asiantaethau priodol eraill.

[42] Para 143, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[43] Para 140, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[44] Para 33, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

## Enghreifftiau rhyngwladol

**71.** Mae sawl gwladwriaeth yn yr UE wedi sefydlu mecanweithiau i geisio deall y galw am sgiliau a chyfateb y cyflenwad â'r galw hwnnw.

- Mae'r Almaen[45] yn gweithredu ei Fachkräfteradar (neu fonitor tagfa gweithlu medrus) i ddarparu gwybodaeth am ba grwpiau galwedigaethol yr effeithir arnynt eisoes gan brinder sgiliau a lle mae tagfeydd yn debygol o ddigwydd. Dadansoddir y canlyniadau fesul talaith. Y nod yw galluogi cyflogwyr a darparwyr i ymateb i gamgymhariadau sgiliau yn y dyfodol.
- Mae Portiwgal[46] yn gweithredu Critérios para abertura de vagas nos ciclos de estudos de formação inicial no ensino superior público (neu'r Meini prawf ar gyfer diffinio nifer y swyddi gwag mewn addysg uwch gyhoeddus) sydd â'r bwriad penodol o fynd i'r afael â chamgymhariadau sgiliau trwy ystyried galw gan gyflogwyr wrth gyfrifo lleoedd prifysgol ar wahanol gyrsiau.
- Mae Sweden[47] wedi sefydlu Regionala kompetensplattformar neu lwyfannau sgiliau rhanbarthol sy'n debyg o ran cysyniad i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Bwriedir i'r llwyfannau wella cydgysylltiad cenedlaethol y cyflenwad sgiliau a chryfhau cydweithrediad lleol a rhanbarthol rhwng sefydliadau cyhoeddus ac asiantaethau sy'n gyfrifol am gyflenwi sgiliau.

## Ysgogi galw am sgiliau uwch ymhlith cyflogwyr

**72.** Nid yw'n ddigon cysoni'r cyflenwad sgiliau â'r galw yn y diwydiant os yw'r galw yn y diwydiant yn adlewyrchu ffafriaeth ar gyfer sgiliau is. Mae'n rhaid gweithredu hefyd i helpu i ysgogi'r galw gan gyflogwyr am weithwyr medrus iawn lle ceir trap sgiliau isel ac mewn ystyr fwy cyffredinol wrth i lefelau cymwysterau Cymru barhau i godi.

**73.** Nid oedd y modd o ysgogi gofynion sgiliau ymhlith cyflogwyr, yn enwedig mewn economi lle mae busnesau bach a chanolig yn bennaf, yn rhan o gwmpas yr ymchwiliad hwn. Serch hynny, argyhoeddwyd y Pwyllgor o'r angen am gynnydd

---

[45] www.cedefop.europa.eu/en/tools/matching-skills/all-instruments/skilled-workforce-bottleneck-monitor

[46] www.cedefop.europa.eu/en/tools/matching-skills/all-instruments/criteria-definition-number-vacancies-public-higher-education

[47] www.cedefop.europa.eu/en/tools/matching-skills/all-instruments/regional-skills-platforms

yn y maes hwn, a chymerodd dystiolaeth gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar ba gamau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd. Esboniodd y Gweinidog:

> "There are a number of things that we're doing [...] In order to stimulate demand, we're also investing heavily in infrastructure and facilities that can ensure that demand is intensified. I could point to a number of centres of excellence across Wales, right across the country. For example, the development of the Advanced Manufacturing Research Centre in Broughton. There's a construction centre of excellence as well, not far from here in Swansea. They are creating the environment. They're the infrastructure components that will drive demand. But also the economic action plan places very strong focus on increasing the number of businesses that are headquartered here."[48]

**74.** Mae'r Pwyllgor yn nodi camau eraill Llywodraeth Cymru yn y maes hwn gan gynnwys datblygu sgiliau yn cael ei gynnwys fel un o'i 5 Galwad i Weithredu, a'r ffaith fod ganddi swyddogaeth ym meini prawf asesu'r Contract Economaidd a'r Gronfa Dyfodol Economaidd.

**75.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o waith arall diddorol ar ysgogi galw, gyda diddordeb ymhlith sefydliadau fel y Sefydliad Polisi Cyhoeddus (IPPR) yn y modd y gall Cymru gynyddu'r galw a'r defnydd gan gyflogwyr o lefelau sgiliau uwch. Ymhlith y syniadau sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn mae:

- creu profion o alw cyflogwyr a rhwymedigaethau newydd ar gyflogwyr i ddatblygu gweithwyr os cyflawnir canlyniadau dysgu yn gyfnewid am arian cyhoeddus.
- adolygu'r ysgogiadau treth ac ariannu sydd yn nwylo Llywodraeth Cymru, i ystyried sut y gellir defnyddio trethi a lwfansau treth, ochr yn ochr ag arian cyhoeddus, i annog niferoedd mwy o gyflogwyr yng Nghymru i gyd-fuddsoddi mewn sgiliau.
- mathau newydd o ddarpariaeth sy'n lleihau'r rhwystr rhag mynediad i'r system sgiliau i bob cyflogwr, ond yn benodol i fusnesau bach a chanolig, microfusnesau a gweithwyr/perchnogion hunangyflogedig. Gallai opsiwn cryno, mwy modiwlaidd o fewn y system sgiliau ganiatáu mwy o ymgysylltiad gan ystod ehangach o gyflogwyr a chynnig llwybrau dysgu "agored" newydd, wedi'u teilwra'n well i gyflogwyr a dysgwyr/gweithwyr.

[48] Para 18, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

**Casgliad 5.** Mae sut i ysgogi'r galw am sgiliau lefel uwch y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn ond mae o bwysigrwydd sylfaenol i'r nod o dorri trapiau sgiliau isel. Mae'n hanfodol ar gyfer sicrhau nad yw'r gweithlu mwy cymwysedig y mae Cymru yn ei ddatblygu yn cael ei danddefnyddio a'i dangyflogi gyda'r holl ganlyniadau personol ac economaidd gwael y mae gwargedion sgiliau yn gysylltiedig â nhw. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor fynd ar drywydd hyn mewn ymchwiliad yn y dyfodol ac ystyried rhywfaint o'r gwaith diddorol sy'n cael ei wneud yn y maes hwn.

# 5. Swyddogaeth Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn trapiau sgiliau isel a lleihau prinder sgiliau

Mae gan y partneriaethau, fel fforymau sy'n dod â darparwyr sgiliau a chyflogwyr at ei gilydd, botensial enfawr i helpu i dorri trapiau sgiliau isel a lleihau prinder sgiliau. Ond er bod gwelliannau'n cael eu gwneud, clywodd y Pwyllgor nad ydynt yn cyrraedd eu potensial llawn eto. Clywsom fod eu swyddogaeth yn dal i fod yn aneglur, bod eu cylch gwaith wedi ei gyfyngu'n artiffisial, eu hargymhellion yn rhy weithredol a manwl. Yn bwysicaf oll, clywsom hefyd, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, fod eu hymgysylltiad â chyflogwyr yn brin o adnoddau ac yn anghytbwys, ac nad yw eu gallu i ddadansoddi data wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

## Swyddogaeth, llywodraethiant a chwmpas y partneriaethau

**76.** Gwnaed llawer o waith da eisoes ar swyddogaeth, llywodraethiant a chwmpas y partneriaethau gan Dr John Graystone yn ei adolygiad ym mis Mawrth 2018 a chan SQW yn eu hadolygiad ym mis Mai 2019. Mae'r ymchwiliad hwn yn adeiladu ar y corff sylweddol hwnnw o argymhellion yn y meysydd hyn.

**77.** Clywodd y Pwyllgor fod cefnogaeth eang i egwyddor y partneriaethau ac i gynllunio sgiliau rhanbarthol. Ond yn yr un modd clywodd dystiolaeth bod swyddogaeth y partneriaethau a lle maent yn ffitio yn y darlun datblygu economaidd ehangach yn parhau i fod yn aneglur i lawer o randdeiliaid. Dywedodd David Jones, o Goleg Cambria, wrth y Pwyllgor:

> "There's a strong message coming through from us that we fully support improved regional planning to make sure we use public money […] What we are saying, I think, is that […] there needs to be a

> review to ensure there is clarity about what it's trying to achieve, the data it uses, and the scope of what RSPs are looking at."[49]

**78.** Clywodd y Pwyllgor gan Ania Rolewska o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg:

> "Mae yna ddau bryder: un yw bod statws y partneriaethau a'u rôl nhw yn annelwig—mae'n anodd iawn darganfod beth yw hyd a lled eu gwaith nhw ar adegau. Ac mae'n anodd gwybod beth yw eu cylch gwaith nhw hefyd."[50]

**79.** Yn ehangach, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid a oedd yn awgrymu bod rhai yn credu bod gan y partneriaethau swyddogaeth a chylch gwaith ehangach na'r hyn sydd ganddynt mewn gwirionedd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn ychwanegu at synnwyr y Pwyllgor bod diffyg eglurder o hyd ymhlith rhanddeiliaid ehangach o ran yr hyn y mae'r partneriaethau yn ei wneud a'u diben. Ar y llaw arall, nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw synnwyr bod gan y partneriaethau swyddogaeth eglur o ran ysgogi galw'r cyflogwyr am sgiliau lefel uwch.

**80.** O ran lle'r partneriaethau yn y strwythurau datblygu economaidd rhanbarthol a chenedlaethol ehangach yng Nghymru, dadleuodd Joshua Miles o'r Ffederasiwn Busnesau Bach:

> "We need a much tighter alignment of what regional economic development looks like. We have quite a lot of scattered things going on at the moment. The governance is not quite tied down, and it would be nice to pull those things together a bit firmer so that we know who's doing what, where and why."[51]

**81.** Esboniodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:

> "I'd accept that the picture needs clarifying and that's our firm intention. Regional economic development is ongoing and the structures that are being designed are still being considered, and we're still putting in place new structures as well, for example the regional teams that will work for the chief regional officer."[52]

---

[49] Para 362, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[50] Para 193, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

[51] Para 238, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 9 Mai 2019

[52] Para 65, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 9 Mai 2019

**82.** Trwy gydol yr ymchwiliad parhaodd rhanddeiliaid i godi pryderon ynghylch llywodraethiant a chysondeb y partneriaethau er gwaethaf yr argymhellion a wnaed gan Dr John Graystone. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod unrhyw ddiffyg cysondeb ymhlith y partneriaethau yn effeithio yn benodol ar ei waith gyda'r cyrff cenedlaethol hynny sydd angen gweithio gyda phob un o'r tair partneriaeth. Dywedodd Jeff Protheroe o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru wrth y Pwyllgor:

> "Each of the RSPs is at a different stage of development and governance at the moment, which is not necessarily helpful, given where we are at the moment."[53]

**83.** A dywedodd Guy Lacey o Goleg Gwent:

> "I would suggest that, if you look at the governance structures currently across the three partnerships, they're all completely different. The representation level is completely different."[54]

**84.** Clywodd y Pwyllgor hefyd fod modd gwella llywodraethiant ac effeithiolrwydd y partneriaethau trwy ddull aelodaeth mwy cynhwysol sy'n sicrhau mwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau. Esboniodd Cerys Furlong o Chwarae Teg:

> "There's masses of evidence about how diversity and gender balance leads to better decision making. Getting a broader spectrum of opinions, priorities and experience necessarily results in different outcomes."[55]

**85.** Nododd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth farn Llywodraeth Cymru ei hun sef

> "I think we need to go further than gender; we need to look at issues around disability, we need to look at other minority groups within our communities and how they are faring in terms of their ability to acquire skills and then whether those skills, then, are adequately and properly rewarded in the workplace."[56]

**86.** Ystyriodd y Pwyllgor swyddogaeth y partneriaethau o ran y Gymraeg. Er i Lywodraeth Cymru esbonio bod gan y partneriaethau swyddogaeth o ran cefnogi

---

[53] Para 24, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

[54] Para 366, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[55] Para 273, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

[56] Para 87, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

strategaeth Cymraeg 2015, cododd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg bryderon ynghylch sut mae'r partneriaethau yn ymgysylltu â materion y Gymraeg. Dywedodd Lowri Williams o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wrth y Pwyllgor bod yn "rhaid ichi brif-ffrydio'r Gymraeg i holl waith y bartneriaeth"[57]; ac esboniodd Dafydd Trystan o'r Coleg Cenedlaethol:

> "Mae angen cydlynu a chysoni pethau. Mae yna arolwg da yn cael ei wneud gan un o'r partneriaethau yn rheolaidd gyda chyflogwyr, ond dyw'r un patrwm ddim yn cael ei ddilyn gan bob un. So, dyn ni ddim yn gwybod beth yw'r anghenion sgiliau, hyd yn oed fel maen nhw'n cael eu diffinio nawr gan gyflogwyr yn y gogledd neu yn y canolbarth. Dŷn ni ddim yn gallu cymharu."[58]

**Casgliad 6.** Mae swyddogaeth y partneriaethau yn parhau i fod yn aneglur. Roedd yn amlwg i'r Pwyllgor, wrth gymryd tystiolaeth, bod dryswch ynghylch eu pwrpas, eu tasgau a'u cylch gwaith, a bod cwestiynau gwirioneddol ynghylch sut y maent yn integreiddio â chyrff rhanbarthol a lleol ehangach fel y Prif Swyddogion Rhanbarthol, Bargeinion Dinesig a Thwf, a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae eu swyddogaeth o ran meysydd polisi allweddol eraill fel cynhwysiant a Chymraeg 2050 hefyd yn aneglur gan arwain at ddrifft sy'n ymddangos yn ad-hoc yn hytrach na dull mwy strategol.

**Casgliad 7.** Ceir cyfleoedd o hyd o ran llywodraethu'r partneriaethau, gwella cynwysoldeb eu Byrddau a chysondeb eu gweithrediad. Mae anghysondeb ar draws partneriaethau yn rhwystr i ddarparwyr a chyflogwyr sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol. Os oes disgwyl i ddiwydiant a darparwyr ymgysylltu'n llawn â'r partneriaethau, mae'n rhaid cael drysau eglur iddynt ar gyfer cyflogwyr cenedlaethol a rhyngranbarthol, proses dryloyw o wneud penderfyniadau, cysondeb gweithredu, a thystiolaeth eglur bod yr amser a'r egni y mae sefydliadau yn eu treulio'n gweithio gyda'r partneriaethau yn arwain at effaith a llwyddiant.

**Casgliad 8.** Byddai gweithio i greu byrddau partneriaeth mwy cynhwysol ac amrywiol yn cynnig cyfleoedd i ystyried problemau hirsefydlog mewn goleuni newydd a datblygu dulliau newydd ac arloesol o fynd i'r afael â nhw. Mae gan bartneriaethau ran i'w chwarae hefyd yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ond mae'n swyddogaeth nad yw'n ymddangos ei bod wedi ei phrif-ffrydio, ei ffurfioli na'i strwythuro'n llawn eto.

[57] Para 191, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

[58] Para 189, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

## Cylch gwaith y partneriaethau a sefyllfa'r sector addysg uwch

**87.** Ar hyn o bryd mae cylch gwaith y Partneriaethau wedi ei gyfyngu i ddarpariaeth addysg bellach lawn amser a phrentisiaethau. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod hyn yn cynrychioli rhwystr artiffisial sy'n groes i nod cyffredinol Llywodraeth Cymru o symud i system addysg a sgiliau ôl-16 integredig.

**88.** Esboniodd Mark Jones o Goleg Gwyr:

> "The issue with the regional demand and supply plan that we do at the moment, [it it's] just focused on further education and work-based learning, and it needs to really pull in school sixth-forms, it needs to pull in A-levels, it needs to pull in some areas of HE [Higher Education] as well."[59]

**89.** Dadleuodd Jane Lewis o bartneriaeth De-orllewin a Chanolbarth Cymru hefyd y dylai cylch gwaith y partneriaethau fod yn ehangach:

> "I agree with [including] the schools, but I also agree with influencing HE. The resources are really important, but it's actually having a clear vision of what is expected of us from Welsh Government."[60]

**90.** Dywedodd Joshua Miles o Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor:

> "At the moment, by focusing just on FE [Further Education], we're looking at just one mode of delivery there. One of the recommendations might be RSPs saying, 'Do you know what? We'd be better delivering this through work-based learning', or 'We might be better delivering certain things through degree apprenticeships', for example. So, we really need to see that different method of delivery being thrown into the mix as well, as opposed to just a conversation about FE here, work-based learning here, and HE not even being on the radar, if that makes sense."[61]

**91.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth y dylai polisi sgiliau rhanbarthol gymryd i ystyriaeth hefyd amgylchiadau'r sector addysg uwch yng Nghymru sy'n cael eu hysgogi gan dri phrif ffactor:

---

[59] Para 203, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[60] Para 181, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[61] Para 261, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 9 Mai 2019

- Yn enwedig ers 2012 pan ddechreuodd cyllid ddilyn myfyrwyr unigol ac y cafodd grantiau canolog i brifysgolion eu lleihau, mae prifysgolion yng Nghymru wedi cael eu "harwain gan y farchnad", gan weithredu mewn marchnad myfyrwyr rhyngwladol, DU gyfan a Chymru gyfan mewn cystadleuaeth â sefydliadau dramor ac yn y DU. Dywedodd Prifysgolion Cymru wrth y Pwyllgor fod prifysgolion eisoes yn cynnig darpariaeth a gynllunnir yn ganolog mewn dau achos arwyddocaol (meddygaeth a hyfforddiant athrawon).
- Mae gan bob prifysgol yng Nghymru ystadau preswyl sylweddol ac maent yn denu nifer fawr o fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru a'r tu allan i'w rhanbarthau cartref yng Nghymru, y mae llawer ohonynt yn dychwelyd yno ar ôl graddio. Mae hyn yn golygu nad yw cyfrannau mawr o fyfyrwyr prifysgol o Gymru yn ymuno â marchnad lafur ranbarthol eu prifysgol.
- Mae prifysgolion Cymru yn gorfforaethau ymreolaethol, yn annibynnol ar y Llywodraeth a hefyd yn elusennau cofrestredig. Er bod Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gynllun cyflawni terfynol, fel y'i gelwir, gyda cholegau bob blwyddyn sy'n nodi eu cynigion ar gyfer pa raglenni i'w cynnig a nifer y myfyrwyr/dysgu i'w haddysgu, nid oes mecanwaith o'r fath i brifysgolion sy'n rhydd i bennu eu cymeriad academaidd eu hunain, i ddyfarnu eu graddau eu hunain, i benderfynu ar gynnwys y dyfarniadau hynny ac i benderfynu ar bwy i'w derbyn.

**92.** Dywedodd yr Athro Julie Lydon o Brifysgol De Cymru wrth y Pwyllgor:

> "The word 'planning' is the word that I shiver at very slightly, because we're market led. So, how far do you plan markets? […] I would object very strongly to [RSPs becoming involved in planning the curriculum] that for lots of reasons, not only institutional autonomy. The reality is that, actually, for most higher education provision, we're not only serving the region. We cut across regions, we cut across nations, we obviously cut across globally. If we weren't able to do that, it would be a lot poorer experience for our learners, and ultimately for the organisations."[62]

**93.** Mae'r uchod yn golygu na all Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar y cwricwlwm mewn prifysgolion, na chytuno ar nifer y dysgwyr y bydd yn eu hariannu ar gyrsiau penodol fel y gall gyda cholegau addysg bellach. Yr eithriad i hyn yw Prentisiaethau Gradd sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan grantiau

[62] Para 99, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

canolog CCAUC a lle mae cyllid wedi ei gyfyngu i lond llaw o byncia "blaenoriaeth".

**94.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Benaethiaid Colegau ynghylch sefyllfa addysg uwch. Esboniodd Guy Lacey o Goleg Gwent:

> "I think that part of the dimension there is: do we want our universities in Wales to be solely operating in a global market, or do we want our universities in Wales to be supporting the development of the Welsh economy? And I just think there's a place in this debate between RSPs and higher education about meeting regional need as well as meeting global need. Otherwise, we have universities that simply attract young people from elsewhere to come and live in Wales for three years, graduate and move away."[63]

**95.** Esboniodd David Jones o Goleg Cambria:

> "We can't just let universities crack on and do their own thing—because ultimately there's public money going into universities; that's where it's coming from at the end of the day—and then just focus on some sort of regional economy-driven planning just on FE and work-based learning. It's flawed if you do it that way."[64]

**96.** Er gwaethaf y safbwyntiau hyn ar sefyllfa darpariaeth prifysgol, clywodd y Pwyllgor gan gynrychiolwyr prifysgolion eu bod yn ymgysylltu â'r partneriaethau a'u bod hefyd yn ymgysylltu mewn nifer o ffyrdd eraill â chyflogwyr a'r system sgiliau ehangach.

**97.** Clywodd y Pwyllgor fod cefnogaeth gan rai rhanddeiliaid i gylch gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ymestyn i brifysgolion a chwmpasu'r ystod gyfan o addysg ôl-16.

**98.** Pan ofynnwyd iddi am hyn, esboniodd y Gweinidog Addysg:

> "I think there's a role there. I think, once we've got confidence that this process is working and, potentially, with post-compulsory education and training reforms, we could look then to see what influence it could have on other parts of our curriculum and our learning continuum. But I think it's early days at the moment."[65]

---

[63] Para 230, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[64] Para 234, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[65] Para 126, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

**Casgliad 9.** Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yn ofalus y dystiolaeth ynghylch swyddogaeth a sefyllfa'r sector addysg uwch yn y system sgiliau yng Nghymru, gan gynnwys y ffyrdd y mae addysg uwch eisoes yn cyfrannu at y dirwedd sgiliau yng Nghymru, ymreolaeth sefydliadol, rhyddid academaidd a'r angen i brifysgolion ddenu myfyrwyr o bob rhan o'r DU a thramor. Os nad oes cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (trwy CCAUC) mae'n amlwg bod yn rhaid i brifysgolion wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch eu penderfyniadau dyfarnu a derbyn eu hunain. Fodd bynnag, croesawodd y Pwyllgor y dystiolaeth gan y sector ar y ffyrdd y mae'n teimlo y gall wneud cyfraniadau pellach, yn enwedig o ran ymchwil a dadansoddi.

**Casgliad 10.** Wrth i Gymru symud tuag at system addysg a sgiliau ôl-16 integredig a chydlynol, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr bod cylch gwaith y partneriaethau yn parhau i gael ei gyfyngu'n artiffisial i ddarpariaeth addysg bellach lawn amser a'r rhaglen brentisiaeth. Bydd y rhaniad artiffisial hwn yn dod yn llawer mwy amlwg ar ôl sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig o 2023. Mae'n rhaid i gylch gwaith y partneriaethau gynnwys ystyriaeth, her a chyngor ar yr ystod lawn o ddarpariaeth sgiliau.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a dadansoddi data gan y partneriaethau

**99.** Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar sut mae'r partneriaethau yn casglu ac yn dadansoddi data, a pha mor dda y maent yn ymgysylltu â chyflogwyr i ddeall eu gofynion sgiliau. Mae'r Pwyllgor yn deall bod llwyddiant a gallu yn y meysydd hyn yn ffactor o ran lefel yr adnoddau y mae'r partneriaethau wedi'u cael, lefel yr oedd yr holl randdeiliad, fwy neu lai, o'r farn ei bod yn annigonol.

**100.** Mae data dibynadwy a dilys yn hanfodol i wneud argymhellion effeithiol a chadw hyder cyflogwyr. Byddai unrhyw anawsterau yn y maes hwn yn gallu tanseilio gwaith a swyddogaeth y partneriaethau.

**101.** Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid a oedd yn cynnwys pryderon sylweddol ynghylch data ac ymgysylltu â chyflogwyr. Cydnabuwyd y pryderon hyn ond nid oedd y partneriaethau sgiliau rhanbarthol yn eu rhannu'n llawn.

**102.** Dywedodd Sasha Davies o bartneriaeth Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor:

> "we recognise that there needs to be improvement in terms of engagement. I think we've been very honest. I wouldn't say that it's necessarily a rosy picture that we've been painting from a north Wales

> basis. But, with actually quite limited resources, I think we do a pretty good job, but there's always room for improvement."[66]

**103.** Dywedodd Jane Lewis o bartneriaeth De-orllewin a Chanolbarth Cymru yn ei thro:

> "We've all got weaknesses, but one of our strengths has always been the employer engagement that we have got, from the SME level all the way through to the national companies. That has enabled us to work closer."[67]

**104.** Clywodd y Pwyllgor gan y partneriaethau fod y broses o gasglu a dadansoddi data wedi bod yn gwella ac yn dod yn fwy cydlynol a chyson ar draws y partneriaethau. Mae gwybodaeth gyffredin am y farchnad lafur yn cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru a defnydd cynyddol o ddarn o feddalwedd gan EMSI, sydd â'r bwriad o ddarparu gwybodaeth a rhagolygon cadarn am y farchnad lafur.

**105.** Fodd bynnag, nid oedd nifer o randdeiliaid yn rhannu'r farn y gellir ystyried bod ymgysylltu â chyflogwyr yn gryfder ar draws yr holl bartneriaethau. Yn benodol, clywodd y Pwyllgor bryderon ynghylch gallu'r partneriaethau i ymgysylltu â busnesau bach a chanolig, sef y mwyafrif llethol o fentrau yng Nghymru, ac roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau bod gan y cyflogwyr mwy o faint ddylanwad anghymesur dros ganfyddiadau'r partneriaethau.

**106.** Dywedodd Joshua Miles o'r Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor:

> "Large employers-Tata, Airbus, those kinds of organisations-have the capacity to send an individual to an RSP to sit on a committee meeting and to articulate what they need. They quite often have direct links to the colleges. They have sufficient numbers where they can pitch in for funding from Welsh Government as well, additional funding, and from the college for that kind of support. [...] Where it starts to fall down is engagement with SMEs. It's a much harder thing to do, and we'd be the first to say that; it's not easy to talk to 250,000 businesses in Wales and get their perspective, but it's the kind of thing we need to do if we're going to get the economy of Wales right."[68]

**107.** Roedd tystiolaeth gan sefydliadau addysg bellach yn adleisio hyn. Dywedodd Guy Lacey o Goleg Gwent wrth y Pwyllgor:

---

[66] Para 71, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[67] Para 72, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[68] Para 239, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 9 Mai 2019

> "I think employer engagement is notoriously difficult. In a nation where we are overwhelmingly an economy of small and medium-sized enterprises, it's very difficult to have that dialogue."[69]

**108.** O ran busnesau bach a chanolig yn yr economi sylfaen, cododd Mary Wimbury o Fforwm Gofal Cymru a Richard Clifford o UK Hospitality bwyntiau tebyg iawn. Mae'r diwydiannau gofal a lletygarwch yn elfennau allweddol yn economi Cymru ac yn hanfodol ar gyfer llesiant Cymru, ond mae'r ddau ohonynt hefyd yn cynnwys busnesau bach a chanolig i raddau helaeth.

**109.** Dywedodd Mary Wimbury wrth y pwyllgor:

> "Our experience is that the regional skills partnerships know that they need to engage with health and social care as a totality, but too often that means just talking to statutory organisations about what their services and needs are, what they're commissioning, rather than directly to employers within the sector."[70]

**110.** Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn sut y gellir gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data a sut y gall y partneriaethau sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol â busnesau bach a chanolig a chyflogwyr yn yr economi sylfaen. O ran ymgysylltu â chyflogwyr, mynegodd Jeff Protheroe o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, yn y bôn:

> "It is really about trying to reduce any barriers between the employers and the providers. [...] there are already discussions going on between providers and employers to identify their needs; that's happening within that apprenticeship systems as well."[71]

**111.** Aeth ymlaen i ddweud:

> "More can be done. [...] But that ultimately comes down to resources on the ground."

**112.** Esboniodd Joshua Miles o'r Ffederasiwn Busnesau Bach rai o'r anawsterau sylweddol y mae'r partneriaethau yn eu hwynebu a maint yr her:

> "there's no best picture of how to do this—I can think of a couple of examples. The Valleys taskforce, for example, had quite a lot of employer engagement events that were, by and large, SMEs—40, 50

[69] Para 259, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[70] Para 17, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Mawrth 2019

[71] Para 49, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

> people in a room in different areas of the Valleys. You know, it's that kind of stuff, I think. It's not the silver bullet—there's no model we can take off the shelf that'll solve this problem. It's always going to be hard work, it's always going to be granular, but it's got to be much more proactive and much more outwardly facing, I think."[72]

**113.** Dywedodd Prifysgolion Cymru wrth y Pwyllgor fod cryn arbenigedd ymchwil a dadansoddi data eisoes yn y prifysgolion yng Nghymru ac y gallai hwn fod ar gael i'r partneriaethau i helpu i wella eu gallu yn y maes hwn. Esboniodd Julie Lydon o Brifysgolion Cymru a Phrifysgol De Cymru:

> "There is a resource within the universities. Clearly, they are employed by the university, but, as academics, they are working with that evidence base and with that information base, and we would like to see more of that used. [there is] expertise in universities they could draw upon."[73]

**114.** Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar wendidau ynghylch data ar y Gymraeg yn y system sgiliau. Esboniodd Ania Rolewska o Swyddfa'r Comisiynydd:

> "Maen nhw [y partneriaethau] yn barod i wrando. Y cwestiwn yw a oes yna gapasiti ar hyn o bryd i ddelifro, i wella dulliau o gasglu data a gwella'r problemau yma o ran dibynadwyedd, cysondeb a pha mor gynhwysfawr yw'r data maen nhw'n ei gasglu. Ac mae gyda ni bryderon o ran hynny, o ran y Gymraeg yn benodol, achos dyn ni'n credu, yn y lle cyntaf, bod, efallai, data ddim yn ddibynadwy ar bob adeg."[74]

**115.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan y partneriaethau fod bylchau yn eu gallu i gasglu data am sgiliau arbenigol iawn. Esboniodd Sian Lloyd Roberts o bartneriaeth Gogledd Cymru:

> "As an RSP, we are able to identify the broader action of where the skills demand is. But more specialist skills-probably, it's down to the industry themselves; they are not entirely sure all the time what they require as specialist skills as well."[75]

**116.** Dywedodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wrth y Pwyllgor:

---

[72] Para 246, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 9 Mai 2019

[73] Para 112, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

[74] Para 184, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 4 Ebrill 2019

[75] Para 61, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

> "I think we need to recognise that RSPs, whilst the resource has been quite considerable—£0.5 million—it's probably not been enough to ensure that thorough engagement takes place with businesses of all types and sizes. Equally, though, there's a role for more representative groups to ensure that they engage with the RSPs and contribute towards the work that is undertaken by them, but I would accept, moving forward, we need to ensure that employer engagement is more thorough."[76]

**117.** Yn ei phapur tystiolaeth i'r ymchwiliad, esboniodd Llywodraeth Cymru hefyd ei bod yn bwriadu adolygu lefel yr adnoddau a ddarperir i'r partneriaethau i helpu i sicrhau eu bod yn gallu gwella ymgysylltiad cyflogwyr a dadansoddi data. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi adolygiad o'r fath.

**Casgliad 11.** Mae casglu a dadansoddi data yn gwbl hanfodol i waith y partneriaethau a'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth y gall darparwyr a chyflogwyr weithredu ar ei sail. Mae angen i'r data hyn gwmpasu'r Gymraeg, yr economi sylfaen a chynhwysiant yn gyson ac yn ddibynadwy. Roedd y Pwyllgor yn poeni o glywed am bryderon cyson a sylweddol gan y rhanddeiliaid ynghylch effeithiolrwydd y gweithgaredd hwn, yn gyffredinol ac o ran y materion penodol uchod, er ei fod yn cydnabod y gofynnir i'r partneriaethau wneud llawer gyda chymharol ychydig. Mae'n hynod bwysig bod gan y partneriaethau fynediad at ddata dibynadwy ac amserol, gan gynnwys drwy ymgysylltu â chyflogwyr cynrychioliadol, ac mae'r un mor bwysig bod â'r gallu i'w dadansoddi'n ddefnyddiol.

## Argymhellion y partneriaethau

**118.** Trwy daenlenni Cynllunio ac Ariannu Rhanbarthol, mae'r partneriaethau yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch pa feysydd o addysg bellach llawn amser a darpariaeth prentisiaethau y dylid eu cynyddu a'u lleihau. Yna mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r taenlenni hyn i gynorthwyo i gytuno ar gwricwlwm sefydliadau addysg bellach a hysbysu'r trefniadau cytundebol gyda darparwyr prentisiaethau. Hyd at eleni, gwnaed yr argymhellion hyn ar lefel dysgwyr unigol ar raglenni unigol. O eleni ymlaen, bydd y partneriaethau yn hytrach yn gwneud argymhellion ar lefel uwch, gan argymell cynnydd a gostyngiadau o fewn sectorau pwnc.

**119.** Dywedodd y sector addysg bellach wrth y Pwyllgor nad oedd y dull hwn yn cydnabod:

[76] Para 105, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

- sut mae'r colegau yn pennu eu cyllidebau ac yn rheoli eu staff addysgu;
- bod gan y colegau genhadaeth gymdeithasol ehangach;
- yr heriau sy'n wynebu dysgwyr sydd wedi cael profiadau gwael yn yr ysgol;
- y problemau o adfer sgiliau hanfodol ac ennill sgiliau trosglwyddadwy; a'r
- cyfleoedd ar gyfer moddau a dulliau darparu newydd, neu gynnwys rhaglenni newydd.

**120.** Dywedodd David Jones o Goleg Cambria wrth y Pwyllgor:

> "I don't think the RSPs are equipped to, to be honest, to advise on that [make detailed recommendations on course levels]. They haven't the people on there or the know-how, and I don't think that's something they're particularly pursuing. I think the challenge with RSPs is that they spend most years developing a plan, getting it signed off and then, once it's signed off, developing another plan."[77]

**121.** Esboniodd Guy Lacey o Goleg Gwent ei fod yn credu bod y dull yn aneffeithiol mewn gwirionedd. Aeth ymlaen i ddweud:

> "I think the exercise is fundamentally flawed, because it is an in-year exercise. It's all about, 'Do we need 16 hairdressers next year?' And I think that micromanagement of provision is, ultimately, a fool's errand. That's not a criticism of the RSP; I think that's a criticism of the inherent activity of trying to plan, at a regional level, down to the micro level of an individual course, a level 2 hairdressing course where, this year, colleges in the region had 30 students. Next year there should be 28. [...] Frankly, that's not the level of planning that we usefully work at."[78]

**122.** Dywedodd David Jones o Goleg Cambria, ar fater cenhadaeth gymdeithasol ehangach colegau addysg bellach wrth y Pwyllgor:

> "it's a bit daft really if we get an RSP plan saying, 'Sorry, north Wales, you only need 16 hairdressers this year', because, at the end of the day, if 30 people want to do hairdressing, we're going to give them a place. Why? Because they're young people and, alongside doing that course, they're

[77] Para 330, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[78] Para 316, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

> going to develop essential skills, digital skills and so on, and it would be totally inequitable to say, 'Sorry, we've only got 16 places in north Wales for hairdressing', when, in schools and the university sector, there are no quotas whatsoever on the type of courses and how many are put on them. So, it really needs a good look at."[79]

**123.** Adleisiwyd yr angen hwn i ystyried materion y tu hwnt i'r galw am sgiliau cyflogwyr yn unig gan Guy Lacey o Goleg Gwent

> "I think that the dimension of the conversation that we've not touched on so far is about out social responsibility to the communities we serve. So, our curriculum planning and our curriculum offer isn't ever going to be just purely employer-led, because a large part of the dialogue has to be with our other community stakeholders about whether or not what we are doing is meeting their needs."[80]

**124.** Aeth ymlaen i ddweud am sgiliau trosglwyddadwy:

> "The single most frequently conversation I have with employers isn't about vocational skills, it's about employability skills. It's about: is a young person or a young adult, because it's not just about 16 to 19-year-olds—? The population of colleges is significantly more diverse than that. The most routine conversation I have is about being ready for work—'Do they understand the obligations of work? Do they have a level of literacy and numeracy that is going to be suitable for my workplace?' That's the most frequent conversation."[81]

**125.** Ar bwnc sgiliau hanfodol, dywedodd Mark Jones o Goleg Gŵyr wrth y Pwyllgor:

> "What [learners want] is something that they can engage in at the age of 16 that maybe they haven't—something that they're going to enjoy. [...] You slide in the maths and the English right underneath it and, in two years' time, they blossom and maybe at that stage, with really good, strong careers advice, they go on to do the jobs that we need them to do. But, at 16 years of age, they haven't got a clue what they want to do, and the advice isn't strong."[82]

[79] Para 217, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[80] Para 257, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[81] Para 263, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[82] Para 218, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

**126.** Aeth ymlaen i esbonio, o ran gweithrediad colegau a rheoli staff:

> "It's not easy, say, for example, to reduce hairdressing and just move those lecturers into engineering. Maybe it's doable over time, but it's not possible in six months."[83]

**127.** Ar yr heriau sy'n wynebu rhai dysgwyr, esboniodd David Jones:

> "This ambition about getting more and more people into the level 3, the A-level equivalent or the national diploma level in Wales, I fully support that, but, you know, sometimes, in most cases, you can't just put them on level 3? If they haven't had a good experience at school or at college, you've got to do the steps."[84]

**128.** A dywedodd Sian Lloyd Roberts o bartneriaeth Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor:

> "The feedback we're getting back from FE quite regularly is that you can't actually get somebody in on level 3 straight away from school. In some instances, you have to have that progression, and we really do understand that and we recognise that."[85]

**129.** Dywedodd Guy Lacey wrth y Pwyllgor, o ran gwella darpariaeth sgiliau:

> "…might not be about developing new qualifications. It might be about developing new approaches to delivering those qualifications."[86]

**130.** Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ei bod mewn gwirionedd yn y broses o gryfhau'r trefniant hwn. Esboniodd Andrew Clarke o Lywodraeth Cymru:

> "For 2019-20, the one that's coming, we're going to add some teeth to that and then we're going to say that, 'We're agreeing a plan with you that's aligned to the RSP outcomes. If you don't stick to it and don't talk to us during the year to explain what the problem is, then we will reclaim money from you and redistribute it to those that do'. And that will put a much harder edge on the whole of the process."[87]

---

[83] Para 278, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[84] Para 267, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[85] Para 66, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[86] Para 257, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Mawrth 2019

[87] Para 128, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

**131.** Dywedodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg wrth y Pwyllgor:

> "We are developing a closer monitoring system to see whether that data and the plans from the RSPs are actually influencing delivery in FE. It's not an easy thing to do, because you can't turn things on and off. Sometimes it's going to take a little bit of time to bed in."[88]

**132.** Aeth y Gweinidog ymlaen i esbonio bod Llywodraeth Cymru wedi dysgu o fersiwn flaenorol y dull a arweiniodd at wneud argymhellion i lawr i lefel dysgwr unigol. Ond y bwriad yw parhau i ofyn i bartneriaethau am argymhellion, er mai ar lefel sector pwnc, fel y'i gelwir, y bydd hynny, lle ceir 14 grŵp o bynciau.

> "We're making changes accordingly, in the light of that experience— that very, very granular approach that was taken, it was clearly not appropriate and moving to the situation we have now, which is, as you said, those 14 areas and the various levels within those 14 areas gives us a better shot at getting that alignment."[89]

**Casgliad 12.** Mae cyflwyno argymhellion manwl ar y lefel weithredol, gyda phartneriaethau yn destun cyfyngiadau artiffisial ychwanegol ar yr argymhellion y gallant eu gwneud, yn offeryn di-fin nad yw'n cydnabod arbenigedd a phrofiad darparwyr yn llawn. Mae hefyd yn gwaethygu'r tensiynau gyda chenhadaeth gymdeithasol ehangach darparwyr y maen nhw yn y sefyllfa orau i'w datrys eu hunain. Mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid i ddarparwyr roi ystyriaeth o hyd, wrth gwrs, i'r galw rhanbarthol am sgiliau. Ond mae'n credu mai'r rhai sydd agosaf at ddysgwyr ac at ddatblygu a chyflawni'r ddarpariaeth sgiliau sydd yn y sefyllfa orau i droi'r galw hwnnw a brofwyd yn gynlluniau cyflawni cwricwlwm hyfyw, gan ddefnyddio eu harbenigedd sylweddol a'u gwybodaeth am eu cyflogwyr lleol eu hunain.

[88] Para 124, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

[89] Para 173, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Mai 2019

# 6. Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn proses ddiwygio drylwyr o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol trwy fabwysiadu'r pecyn o gamau gweithredu a nodir isod, ac ailystyried eu hadnoddau pan fo'n ofynnol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys ail-frandio'r partneriaethau fel Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol i wneud eu swyddogaeth yn y system sgiliau ehangach yn eglur, a phwyslais newydd ar ymyriadau ar ochr y galw. Mae'r pecyn hefyd yn sefydlu rhagolwg a chylch gwaith strategol eglur ar gyfer y Byrddau, gan wella ymgysylltiad cyflogwyr a gwaith casglu a dadansoddi data.

Cam Gweithredu 1: **Ail-frandio Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol** i wneud eu swyddogaeth a'u cylch gwaith yn eglur i randdeiliaid. Yn dilyn ymlaen o hyn, dylai fod gan y Byrddau Cynghori y swyddogaeth eglur o gynghori Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ar o leiaf: (a) y galw a'r prinder/camgymhariadau sgiliau rhanbarthol yn y presennol a'r dyfodol; (b) sut i fynd i'r afael â phrinder/camgymhariadau sgiliau, (c) gwerthuso eu cyngor a'u cynlluniau eu hunain ac (ch) ar unrhyw ymateb i ergydion i'r system economi a sgiliau ranbarthol fel cyflogwr mawr yn diswyddo nifer sylweddol o staff.

Cam Gweithredu 2: Yn ychwanegol at yr uchod, dylai fod gan y Byrddau Cynghori y swyddogaeth o nodi, deall a chyflwyno'n eglur i randdeiliaid y sectorau, y rhanbarthau a'r lleoedd sy'n dioddef trapiau sgiliau isel. Dylent gynghori ar fynd i'r afael â'r trapiau, gan gynnwys ysgogi galw gan gyflogwyr yn y dyfodol am sgiliau lefel uwch.

Cam Gweithredu 3: Dylai Llywodraeth Cymru **gytuno a chyhoeddi amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adolygiad Graystone yn llawn** er mwyn sicrhau bod llywodraethiant y Byrddau Cynghori yn cael ei gryfhau, yn enwedig yr argymhelliad ar gyfer Fframwaith Sicrwydd Cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fynd ymhellach a gweithio gyda'r Byrddau Cynghori i sicrhau mwy o amrywiaeth ar eu Byrddau a chydbwysedd rhwng y rhywiau, gan wneud hynny drwy'r Fframweithiau Sicrwydd Cenedlaethol.

Cam Gweithredu 4: Yn unol ag argymhellion adolygiad Graystone a SQW, dylai'r Byrddau Cynghori fabwysiadu pwyslais mwy strategol, gan gyhoeddi gwell adroddiadau sgiliau a chyflogaeth 3 blynedd rhanbarthol. Dylai'r adroddiadau hyn gyflwyno gwybodaeth a dadansoddiad manwl ar lefel wirioneddol strategol sy'n ystyried ffynhonnau sgiliau diwydiant, rhwystrau ac ati i lywio a chynorthwyo'r ystod gyfan o ddarparwyr addysg a rhanddeiliaid eraill, a all

gyflwyno eu cynigion ar gyfer ymateb wedyn. Dylai'r cynlluniau gynnwys y materion yng Nghamau Gweithredu 1 a 2 uchod.

Cam Gweithredu 5: Trwy'r Fframweithiau Sicrwydd Cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Byrddau Cynghori i nodi mesurau meintiol ac ansoddol y gellir eu defnyddio i fesur a chyfleu effaith y Byrddau i randdeiliaid. Os yw'r Byrddau Cynghori'n mynd i fwynhau hyder diwydiant, mae'n rhaid iddynt allu cynnig prawf diamwys bod amser ac ymdrech cyflogwyr i ymgysylltu â nhw wedi bod yn werth chweil ac yn effeithiol.

Cam Gweithredu 6: Dylid dynodi un Bwrdd Cynghori i gynrychioli a gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer cyrff cenedlaethol mawr ag anghenion sgiliau cenedlaethol fel y diwydiant adeiladu a Trafnidiaeth Cymru. Dylai'r Bwrdd Cynghori hwn gael adnoddau priodol a dylai eu hadroddiadau sgiliau a chyflogaeth rhanbarthol roi sylw penodol i anghenion sgiliau cenedlaethol cyfanredol cyrff o'r fath.

Cam Gweithredu 7: Fel blaenoriaeth, **mae'n rhaid cryfhau'n sylweddol y gallu i gasglu a dadansoddi data ym mhob Bwrdd Cynghori**. Er mwyn cyflawni cymaint o werth am arian a phosibl, ac yn unol â phwyslais Llywodraeth Cymru ar eu cenhadaeth ddinesig, dylid gwneud hyn drwy ddefnyddio'r **arbenigedd ymchwil o'r radd flaenaf yn y byd a ariennir yn gyhoeddus ym mhrifysgolion Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru felly weithio gyda CCAUC a phrifysgolion Cymru i sefydlu partneriaethau ffurfiol rhwng prifysgolion a phob Bwrdd Cynghori** i gynnal ymchwil a dadansoddi data ar eu rhan a chynnig gwasanaeth ymgynghori ar fethodoleg ymchwil.

Cam Gweithredu 8: Fel blaenoriaeth, **mae'n rhaid gwella'n sylweddol y gallu i gasglu a dadansoddi data ar y Gymraeg ym mhob Bwrdd Cynghori**. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall hwyluso model sy'n caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cenedlaethol Cymraeg ddefnyddio eu harbenigedd a'u hymchwil presennol i helpu ystyriaethau Cymraeg prif ffrwd y bartneriaeth a hysbysu eu hadroddiadau 3 blynedd.

Cam Gweithredu 9: Fel blaenoriaeth, mae'n rhaid neilltuo mwy o adnoddau i ymgysylltu â chyflogwyr, yn enwedig â busnesau bach a chanolig, a gwella hynny'n sylweddol. Unwaith eto, trwy wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i ddefnyddio ased gwerthfawr sy'n bodoli eisoes ar ffurf ein rhwydwaith helaeth o ddarparwyr prentisiaethau ac isgontractwyr a ariennir yn gyhoeddus. Mae gan y darparwyr hyn, yn ddiofyn, gysylltiadau llawer agosach â busnesau bach a chanolig nag y gall y Byddai Cynghori obeithio eu cael – mae cysylltiadau o'r fath yn ased gwerthfawr. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i

ddefnyddio ei chytundebau ariannu i gyflwyno telerau rhesymol ar y darparwyr preifat (a'u 90+ o isgontractwyr) i ymgysylltu â'u rhwydweithiau cyflogwyr a'r Byrddau Cynghori i harneisio eu gwybodaeth sylweddol am y galw yn y farchnad.

Cam Gweithredu 10: Yn unol â rhagolwg mwy strategol, ni ddylai Llywodraeth Cymru ofyn i Fyrddau Cynghori wneud argymhellion gweithredol ar niferoedd dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach mwyach, hyd yn oed ar y lefel sector-pwnc bresennol. Yn hytrach, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysg bellach roi sylw amlwg i'r adroddiadau Byrddau Cynghori 3 blynedd fwy strategol a seiliedig ar wybodaeth wrth gytuno ar eu cynlluniau cyflawni terfynol, gan eu grymuso a'u cymell i ymateb i'r materion a nodwyd yn yr adroddiadau hynny.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda chyrff cynrychioli'r diwydiant a Cymwysterau Cymru a chyhoeddi cynllun gweithredu i sicrhau bod y seilwaith sgiliau ehangach yn cael ei ailadeiladu ac yn seiliedig ar sefydliadau a strwythurau sy'n addas ar gyfer y lefel amserol o graffu a'r arbenigedd dwfn sy'n ofynnol. Nid yw Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol, Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn disodli craffu gofalus ac amserol ar lefel sector a chymeradwyo cymwysterau a chynnwys.

# Atodiad: Tystion

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 21 Mawrth 2019 | Jane Lewis, Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-Orllewin a Canolbarth Cymru<br>Sasha Davies, Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru<br>Sian Lloyd Roberts, Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru<br>Beverly Owen, Cyngor Dinas Casnewydd<br>Richard Crook, Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd<br>Mark Jones, Coleg Gwyr Abertawe<br>Dr Rachel Bowen, Colegau Cymru<br>David Jones, Coleg Cambria<br>Guy Lacey, Coleg Gwent |
| 27 Mawrth 2019 | Mary Wimbury, Fforwm Gofal Cymru<br>Richard Clifford, UK Hospitality |
| 4 Ebril 2019 | Jeff Protheroe, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru<br>Professor Julie Lydon, Prifysgolion Cymru<br>Keiron Rees, Prifysgolion Cymru<br>Anna Rolewska, Comisiynydd y Gymraeg<br>Lowri Williams, Comisiynydd y Gymraeg<br>Dr Dafydd Trystan, Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>Cerys Furlong, Chwarae Teg<br>David Hagendyk, Sefydliad Dysgu a Gwaith |
| 9 Mai 2019 | Joshua Miles, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| 15 Mai 2019 | Ken Skates AM, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth<br>Kirsty Williams AM, Y Gweinidog Addysg<br>Andrew Clark, Llywodraeth Cymru<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru<br>Rachel Garside-Jones, Llywodraeth Cymru |